# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 9 Ionawr 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

[09.00]

## 2 Papurau i'w nodi

[09.00] (Tudalennau 1 - 7)

**2.1 FIN(5)-01-19 PTN1 - Llythyr gan y Llywydd at y Prif Weinidog - Deddfu ar gyfer Brexit - 4 Rhagfyr 2018**

(Tudalennau 8 - 9)

**2.2 FIN(5)-01-19 PTN2 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - Deiseb P-05-803 - 11 Rhagfyr 2018**

(Tudalen 10)

**2.3 FIN(5)-01-19 PTN3 - Llythyr gan y Gweinidog Addysg - rhaglen trawsnewid system ADY - 12 Rhagfyr 2018**

(Tudalennau 11 - 13)

**2.4 FIN(5)-01-19 PTN4 - Llythyr gan yr Ombwdsmon - Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Amcangyfrifon 2019-20 - 18 Rhagfyr 2018**

(Tudalennau 14 - 16)

## 3 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 1 (y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd)

[09.00-10.00] (Tudalennau 17 - 50)

Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru

Liz Matthews, arweinydd polisi a gweithredu ym maes treth incwm

Papur 1 – Y pedwerydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ynghylch gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

## 4 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 2 (Awdurdod Cyllid Cymru)

[10.00-10.40] (Tudalennau 51 - 60)

Dyfed Alsop, Prif Weithredwr, Awdurdod Cyllid Cymru

Kathryn Bishop, Cadeirydd, Awdurdod Cyllid Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

[10.40]

## 6 Datganoli pwerau cyllidol i Gymru: Trafod y dystiolaeth

[10.40-11.00] (Tudalennau 61 - 86)

Papur 2 - Y Pedwerydd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth y DU ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

## 7 Ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol

[11.00-11.10] (Tudalennau 87 - 90)

Papur 3 - Llythyrau drafft at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd a chyrff a ariennir yn uniongyrchol

## 8 Ail Gyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19

[11.10-11.20] (Tudalennau 91 - 92)

Papur 4 - Ail Gyllideb Atodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19 Memorandwm Esboniadol

## 9 Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19

[11.20-11.30] (Tudalennau 93 - 108)

Papur 5 - Llythyr gan y Comisiynydd a Memorandwm Esboniadol ynghylch Cyllideb Atodol 2018-19

Papur 6 - Llythyr gan y Comisiynydd - tanwariant 2018-19 y Bwrdd Taliadau

# Concise Minutes - Finance Committee

Meeting Venue:

**Committee Room 1 - Senedd**

Meeting date: Wednesday, 21 November 2018

Meeting time: 09.01 - 11.44

This meeting can be viewed on Senedd TV at:

http://senedd.tv/en/5133

## Attendance

| Category | Names |
|---|---|
| Assembly Members: | Llyr Gruffydd AM (Chair)<br>Rhun ap Iorwerth AM<br>Neil Hamilton AM<br>Mike Hedges AM<br>Jane Hutt AM<br>Nick Ramsay AM<br>David Rees AM |
| Witnesses: | Mark Drakeford AM, Cabinet Secretary for Finance<br>Andrew Jeffreys, Welsh Government<br>Margaret Davies, Welsh Government |
| Committee Staff: | Bethan Davies (Clerk)<br>Georgina Owen (Deputy Clerk)<br>Martin Jennings (Researcher) |

## 1 Introductions, apologies, substitutions and declarations of interest

1.1 The Chair welcomed Members to the meeting.

## 2 Paper(s) to note

2.1 The papers were noted.

### 2.1 PTN1 – Letter from the Cabinet Secretary for Finance – Second Supplementary Budget 2018-19 – 12 November 2018

### 2.2 PTN2 – Letter from Paul Davies AM – Autism (Wales) Bill – 15 November 2018

## 3 Welsh Government Draft Budget 2019-20: Evidence session with the Cabinet Secretary for Finance

3.1 The Committee took evidence from Mark Drakeford AM, Cabinet Secretary for Finance; Andrew Jeffreys, Director, Welsh Treasury, Welsh Government; and Margaret Davies, Deputy Director, Strategic Budgeting, Welsh Government.

## 4 Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public from the remainder of the meeting and the meetings on 22 and 29 November 2018

4.1 The motion was agreed.

## 5 Welsh Government Draft Budget 2019-20: Consideration of evidence

5.1 The Committee considered the evidence received.

# Concise Minutes – Finance Committee

Meeting Venue:

**Committee Room 4 – Tŷ Hywel**

Meeting date: Thursday, 22 November 2018

Meeting time: 13.32 – 14.19

This meeting can be viewed on Senedd TV at:

http://senedd.tv/en/5394

## Private

### Attendance

| Category | Names |
|---|---|
| Assembly Members: | Llyr Gruffydd AM (Chair)<br>Rhun ap Iorwerth AM<br>Neil Hamilton AM<br>Jane Hutt AM<br>Nick Ramsay AM<br>David Rees AM |
| Committee Staff: | Bethan Davies (Clerk)<br>Georgina Owen (Deputy Clerk)<br>Martin Jennings (Researcher)<br>Owen Holzinger (Researcher)<br>Christian Tipples (Researcher) |

### 1 Introductions, apologies, substitutions and declarations of interest

1.1 The Chair welcomed Members to the meeting.

1.2 Apologies were received from Mike Hedges AM.

## 2 Welsh Government Draft Budget 2019-20: Consideration of draft report

2.1 The Committee agreed the report with changes.

# Concise Minutes - Finance Committee

Meeting Venue:
**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**
Meeting date: Thursday, 29 November 2018
Meeting time: 09.15 - 11.07

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://senedd.tv/en/5141

# Private

## Attendance

| Category | Names |
|---|---|
| Assembly Members: | Llyr Gruffydd AM (Chair)<br>Jane Hutt AM<br>David Rees AM |
| Witnesses: | Andrew Jeffreys, Welsh Government<br>Steve Davies, Welsh Government |
| Committee Staff: | Bethan Davies (Clerk)<br>Georgina Owen (Deputy Clerk)<br>Martin Jennings (Researcher)<br>Joanne McCarthy (Researcher)<br>Christian Tipples (Researcher)<br>Gareth Howells (Legal Adviser) |

## 1 Introductions, apologies, substitutions and declarations of interest

1.1 The Chair welcomed Members to the meeting.

1.2 Apologies were received from Mike Hedges AM, Neil Hamilton AM, Rhun ap Iorwerth AM and Nick Ramsay AM.

## 2 Paper(s) to note

2.1 The papers were noted.

**2.1 PTN1 – Letter from the Cabinet Secretary for Finance: UK Autumn Budget 2018 – Consequentials to the Wales DEL – 19 November 2018**

**2.2 PTN2 – Letter from the Assembly Commission: Voluntary Exit Scheme 2018 – 20 November 2018**

**2.3 PTN3 – Letter from the Cabinet Secretary for Finance – Vacant Land Tax – 20 November 2018**

## 3 Mutual Investment Model: Technical Briefing

3.1 The Committee received a technical briefing on the Mutual Investment Model from Welsh Government officials, Andrew Jeffreys, Director, Welsh Treasury; and Steve Davies, Deputy Director, Innovative Finance.

3.2 The Committee agreed to consider the capital funding strategy of the Welsh Goverment in due course.

## 4 Autism (Wales) Bill: Consideration of draft report

## 5 Public Services Ombudsman (Wales) Bill: Consideration of proposed amendments at Stage 2

5.1 The Committee considered and agreed the proposed amendments that it will table to the Public Services Ombudsman (Wales) Bill at Stage 2.

## 6 Financial implications of the forthcoming Senedd and Elections (Wales) Bill

6.1 The Committee agreed to appoint an Independent Advisor to assist with its financial scrutiny of the forthcoming Senedd and Elections (Wales) Bill.

## 7 Funding of directly funded bodies

7.1 The Committee agreed to write to directly funded bodies and the Welsh Government seeking views on the direction and guidance provided by the Committee when setting their estimates.

## 8 Consideration of forward work programme

8.1 The Committee considered its forward work programme.

## 9 The Landfill Disposals Tax (Tax Rates) (Wales) (Amendment) Regulations 2018

9.1 The Committee noted the statutory instrument.

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Y Gwir Anrh Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/CE

4 Rhagfyr 2018

Annwyl Carwyn

Yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 28 Tachwedd 2018 trafodwyd rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau wrth graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit. Mynegodd y Cadeiryddion bryder sydd ganddynt ynghylch rôl y Cynulliad yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Dywedodd y Cadeiryddion fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yn nifer o Filiau'r DU sy'n ymwneud â Brexit, yn hytrach na chyflwyno ei Biliau ei hun i'r Cynulliad graffu arnynt. O ran yr is-ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gywiro'r llyfr statud cyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, deallaf eich bod wedi cytuno i gyfran sylweddol o'r ddeddfwriaeth hon gael ei gwneud gan Weinidogion y DU, gan ddefnyddio pwerau cydredol ar ran Gweinidogion Cymru.

Er fy mod i, a Fforwm y Cadeiryddion, yn deall eich bod wedi gwneud y penderfyniadau hyn ar sail effeithlonrwydd i'r llywodraethau sy'n rhan o'r broses, y pryder a fynegwyd gan y Cadeiryddion yw bod hyn yn dod ar draul rôl y Cynulliad ac felly gallu'r Aelodau i gynrychioli buddiannau pobl Cymru yn effeithiol yn y broses o ddeddfu ar gyfer Brexit.

Wrth gynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd imi gan y Cadeiryddion, a chan weithredu er budd sefyllfa'r Cynulliad ym mhroses Brexit, rwy'n pryderu mai effaith gronnol y penderfyniadau hyn gan Lywodraeth Cymru yw anwybyddu rôl y Cynulliad yn anfwriadol.



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno bod craffu ar ddeddfwriaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, yn enwedig mewn perthynas â meysydd polisi pwysig sy'n effeithio ar ddinasyddion, yn elwa o waith craffu llawer mwy penodol i Gymru pan gaiff ei hystyried gan y Cynulliad.

Nid yw'r cyfle cyfyngedig ar gyfer gwaith craffu a gynigir gan gonfensiynau cydsyniad deddfwriaethol a gweithdrefnau cysylltiedig yn cyd-fynd â phrosesau craffu deddfwriaethol llawn y Cynulliad.

At hynny, mae gwaith craffu deddfwriaethol gan y Cynulliad yn cynnig proses fwy hygyrch a thryloyw i randdeiliaid Cymru a'r cyhoedd, yn ogystal â sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gwneud yn ein dwy iaith swyddogol.

Yn union fel yr ydych wedi ymdrechu i sicrhau rôl i Lywodraeth Cymru ym mhroses Brexit, rhaid imi sicrhau bod y Cynulliad, a'i Aelodau, yn gallu chwarae'r rôl lawn y cawsant eu hethol i'w chyflawni.

Rwy'n deall bod pwyllgorau'r Cynulliad yn bwriadu ymgymryd â gwaith pellach yn y maes hwn ac rwy'n siŵr y byddant yn parhau i godi materion gyda chi a Gweinidogion Cymru.

Yn y cyfamser, gofynnaf ichi ystyried y pryderon a fynegwyd a byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar sut y gallech sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i alluogi'r Cynulliad i chwarae ei ran lawn wrth ddeddfu ar gyfer Brexit.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad, Arweinydd y Tŷ, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (yn sgil ei rôl ym mhroses Brexit).

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Eitem 2.2

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Deisebau

National Assembly for Wales
Petitions Committee

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2018

Annwyl Llyr,

**Deiseb P-05-803 Mae ein byd naturiol yn cael ei wenwyno gan blastigau untro...mae'n bryd cyflwyno treth!**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wrthi'n ystyried y ddeiseb uchod. Yn ein cyfarfod ar 27 Tachwedd, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i rannu manylion y ddeiseb er gwybodaeth i chi.


Mae'r holl wybodaeth sy'n ymwneud â'r ddeiseb ar gael yn:
http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21276&Opt=0

Yn ogystal â hyn, cytunwyd hefyd i gymryd y camau a ganlyn:

- monitro'r gwaith o ddatblygu cynigion ar gyfer trethi yn y maes hwn, gan gynnwys Strategaeth Adnoddau a Gwastraff Llywodraeth y DU sydd yn yr arfaeth; a
- trafod y ddeiseb hon, a deisebau eraill yn ymwneud â phlastigau untro, pan fydd y Pwyllgor wedi cael rhagor o wybodaeth am yr hyn sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r broblem.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



David J Rowlands AC
Cadeirydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Eitem 2.3

**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-(P)-KW-4504-18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
SeneddCYPE@assembly.wales

cc Llyr Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

cc Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
SeneddFinance@assembly.wales
SeneddCLA@assembly.wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Rhagfyr 2018

Yn ystod gwaith craffu eich pwyllgorau ar y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gwnaed ymrwymiad i roi gwybodaeth reolaidd ar y rhaglen i drawsnewid y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dyma'r pumed llythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

## 1. Deddfwriaeth a chanllawiau statudol

Yn fy niweddariad blaenorol, dywedais wrthych y byddai'r fersiwn nesaf o'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol ("y Cod ADY") ar gael i ymgynghori arno yn nes ymlaen eleni. Felly, pleser o'r mwyaf oedd ysgrifennu atoch yn gynharach yr wythnos hon fel ymgynghorai statudol i gyhoeddi lansiad ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod ADY drafft o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf"). Mae'r ymgynghoriad yn gofyn hefyd am eich barn am reoliadau drafft yn ymwneud â Thribiwnlys Addysg Cymru a Chydgysylltwyr ADY, a'r bwriad polisi ar gyfer amryw o reoliadau arfaethedig eraill. Yn ogystal, mae'n gofyn am eich barn am ddiwygiadau arfaethedig i God

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya, a luniwyd yn bennaf ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ag ADY.

Yn unol â'm llythyr blaenorol, mae'n hollbwysig eich bod yn mynegi eich barn i sicrhau bod ein cynigion yn ymarferol a theg i'r rhai sy'n gorfod cyflawni swyddogaethau o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd, ac yn deg a chyfiawn i ddysgwyr ag ADY sydd angen y cymorth iawn i'w helpu i gyflawni eu potensial llawn.

Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddir fersiwn i blant/pobl ifanc a fersiwn hawdd ei darllen o'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn gyfle i blant a phobl ifanc, a'r rhai a all elwa ar fersiwn hawdd ei darllen, ymgysylltu â'r ymgynghoriad.

**2. Cymorth gweithredu / pontio**

Ym mis Medi 2018, cyflwynodd arweinwyr trawsnewid y system ADY eu cynlluniau gweithredu rhanbarthol ac addysg bellach. Mae'r cynlluniau'n amlinellu sut mae pob rhanbarth yn helpu sector y blynyddoedd cynnar, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru i baratoi i roi'r system newydd ar waith. Mae cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno rhaglenni hyfforddi amlasiantaethol, i greu mapiau darpariaeth ôl-16 ledled Cymru, i esbonio rôl swyddog arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar, i gefnogi rôl y Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (DECLO) ac i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen i drawsnewid y system ADY ymhlith rhanddeiliaid.

Cynhelir sesiynau cynnydd ac adolygu ym mis Ionawr i fonitro datblygiad pob prosiect ledled Cymru.

Rydym yn dal i gyfarfod â grŵp arwain trawsnewid y system ADY bob deufis. Mae'r grŵp yn helpu i ddatblygu a chyflwyno dulliau gweithredu yn gyson ar draws Cymru, ac mae'n hollbwysig o ran sbarduno gwaith yr arweinwyr trawsnewid a'r rhaglen drawsnewid ehangach.

**3. Datblygu'r gweithlu**

Mae'r ymgynghoriad ar y Cod drafft yn gofyn am eich barn am y rheoliadau drafft ar Gydlynydd ADY (yn rhan 3 o'r ddogfen ymgynghori). Y bwriad yw defnyddio'r pŵer deddfu o dan adran 60 o Ddeddf 2018 i sicrhau bod rôl y Cydlynydd ADY yn cael ei chyflawni mewn ffordd gyson ac effeithiol ym mhob ysgol a sefydliad addysg bellach yng Nghymru ac yn cefnogi darpariaeth y system ADY ac amcanion trosfwaol Deddf 2018.

Mae rôl y Cydlynydd ADY yn hollbwysig i lwyddiant y system ADY newydd ac rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gweithlu hwn trwy ddysgu proffesiynol. Mae swyddogion yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y Cydlynydd ADY.


Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grant i Brifysgol Caerdydd sy'n talu ffioedd a bwrsarïau 10 myfyriwr y flwyddyn ar ei rhaglen hyfforddi proffesiynol tair blynedd Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol. Rwyf wedi penderfynu parhau â'r trefniant hwn a'i gryfhau trwy gysylltu isafswm o fwrsarïau i fyfyrwyr sydd eisoes yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, a thrwy annog myfyrwyr i aros a gweithio yng Nghymru yn syth ar ôl graddio.

**4. Codi ymwybyddiaeth**

Ym mis Chwefror, byddwn yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau i randdeiliaid ledled Cymru. Bydd pob digwyddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf i randdeiliaid am raglen drawsnewid y system ADY ac yn cynnwys gweithdai ar agweddau penodol ar y Cod ADY drafft. Bydd manylion y digwyddiadau ar gael maes o law.

Byddwn yn trefnu gweithdai ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd fel y gallan nhw fynegi eu barn am y cynigion hyn hefyd.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Ombudsman Ombwdsmon
PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Ein cyf: NB/mm
Eich cyf:
Dyddiad: 18 Rhagfyr 2018

Gofynnwch am : Marilyn Morgan
01656 641150
Marilyn.morgan@ombudsman-wales.org.uk

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Trwy Ebost yn unig:**
SeneddFinance@Assembly.Wales

Annwyl Llyr

**Amcangyfrifon Cyllid 2019-20**

Diolch am eich llythyr wedi'i ddyddio 21 Tachwedd. Rwy'n falch mai chi fydd yr Aelod sy'n gyfrifol o'r ddeddfwriaeth OGCC newydd ac rwy'n edrych ymlaen at weithio â chi. Yn eich llythyr, cyfeiriasoch at ddymuniad y Pwyllgor i geisio fy ymateb ffurfiol i argymellion yr adroddiad. Mae gennyf yr ymatebion a'r sylwadau canlynol i'w wneud:

**Argymhelliad 1 – Canolbwyntio ar swyddogaethau statudol ac ystyried/ ymchwilio cwynion.** Rwyf wastad wedi canolbwyntio adnoddau OGCC ar swyddogaethau statudol ac wrth ymdrin â chwynion. Dengys dadansoddiad yn fy adroddiad blynyddol diweddaraf, 2017/18, bod 98.8% o'm hadnoddau yn ymroddedig i swyddogaethau a dyletswyddau statudol, gyda 1.2% yn gysylltiedig â'r gwaith ar y Bil OGCC newydd.

Mae gan y gwaith gwella, a adnabuwyd yn fy Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, sail statudol ac mae'n cynnwys gwneud argymhellion ar gyfer gwellhad systematig lle mae cwyn yn dangos bod hyn yn briodol, dilyn fy argymhellion i sicrhau cydymffurfiaeth, cyhoeddi fy adroddiadau er budd y cyhoedd, cyhoeddi Coflyfrau o grynodebau cwynion a phwyntiau dysgu, paratoi a chyhoeddi llythyrau blynyddol ac ymgysylltu cyffredinol â chyrff cyhoeddus a chynrychioliadol i sicrhau gwellhad wrth ymdrin â chwynion. Mae'r elfennau hyn o waith gwella yn rhan annatod o ystyried ac ymchwilio i gwynion.



Public Services Ombudsman for Wales | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ

01656 641150 01656 641199 ask@ombudsman-wales.org.uk www.ombudsman-wales.org.uk

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol mai'r Pwyllgor Cyllid yr argymhellodd y llynedd fy mod yn ehangu'r gweithgaredd gwella wedi'i dargedu'n ychwanegol a gynhaliwyd gan fy swyddogion gwella. Yn fy sesiwn dystiolaeth, esboniais fod yr elfen hon o'n gwaith gwella yn gyfyng, a bod pwysau llwyth achosion a chyfyngiadau o ran adnoddau wedi golygu nad oeddwn wedi gallu ei ehangu. O ystyried Argymhelliad 1 a 4 y Pwyllgor, ynghyd â phwysau llwyth achosion a chyllidol, byddaf yn lleihau'r gwaith a dargedir fy swyddogion gwella yn 2019/20.

**Argymhelliad 2 – Penawdau Cyllideb, sail ar gyfer yr adnoddau a geisir a chysylltiadau ag amcanion.** Derbynnir hyn yn llawn.

**Argymhelliad 3 – Triniaeth gyfrifyddu o brydlesi.** Derbynnir hyn yn llawn ac mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau edrych yn fanwl ar y mater. Fodd bynnag, rydym wedi cael ein hysbysu'n ddiweddar gan Gyllid Llywodraeth Cymru a'r WAO bod gweithredu IFRS16 (Prydlesi) wedi'i ohirio nes 2020-21 ar gyfer y sector gyhoeddus.

**Argymhelliad 4 – Creu Swyddog Dysgu a Gwella.** Mae penderfyniadau staffio unigol yn fater i mi fel corfforaeth annibynnol yn unig, ac rwy'n aros yn ymroddedig i'r egwyddor o hyrwyddo gwella a dysgu oddi wrth gwynion, yn ogystal â'u hymchwilio a chyrraedd canfyddiadau. Fodd bynnag, o ystyried barn ddatganedig y Pwyllgor ar waith gwella a'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer deddfwriaeth newydd a fydd yn cefnogi dysgu a gwella o'r fath, rwyf wedi ystyried hyn ac rwy'n fodlon peidio â symud ymlaen â'r apwyntiad arfaethedig hwn.

**Argymhelliad 5 – Manylion Costau Staff.** Rwy'n ystyriol o natur annibynnol fy rôl a'r gofyniad i Ombwdsmon fod yn weladwy ac yn eglur annibynnol. Yn y cyd-destun hwnnw, mae gennyf ffydd y byddech yn gwerthfawrogi, er bod y Pwyllgor Cyllid yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar lefel y cyllid a ddarperir, mae manylion y strwythur staffio yr wyf yn rhoi ar waith yn fater i mi. Mae digwyddiadau diweddar hefyd wedi achosi anhawsterau gwirioneddol wrth fod mor fanwl ag yr hoffwn fod. Wedi dweud hynny, rwy'n derbyn yr argymhelliad mewn egwyddor a byddaf, wrth gwrs, yn rhoi mwy o fanylion am fy nghostau staffio cyffredinol mewn amcangyfrifon y dyfodol.

**Casgliad 1 – Amcangyfrifon cyllideb atodol ar gyfer pwerau newydd.** Derbynnir a chroesawir hyn.

**Casgliad 2 – Cyfeiriad at Bloc Cymru.** Rwy'n ofni bod rhywfaint o ddryswch ar y mater hwn yr hoffwn ei egluro. Nid yw fy swyddfa yn seilio ein hamcangyfrifon ar gynnydd y flwyddyn flaenorol. Mae ein hamcangyfrifon yn seiliedig ar asesiad o'r gwaelod i fyny o angen. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor Cyllid hi'n glir y llynedd na ddylai twf ein cyllideb fod yn fwy na thwf yn y bloc – gan roi nenfwd ar ein hamcangyfrif. O ystyried amseriad ein hamcangyfrif cyllideb, mae'n amhosib i ni gyfeirio at dwf y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol (deallaf nad yw hyn yn glir o hyd) ac felly, rydym wedi cyfeirio at y ffigyrau swyddogol diweddaraf a rhai sydd wedi'u cadarnhau.Rwy'n gobeithio bod hyn yn egluro'r mater yn rhesymegol.

**Casgliad 3 – Alinio cyllidebau cyrff a ariennir yn uniongyrchol a Bloc Cymru.**
Croesewir y casgliad hwn, yn arbennig o ystyried fy sylwadau am Gasgliad 2. Ers hynny, mae fy staff wedi cyfarfod â swyddogion Cyllid Llywodraeth Cymru i drafod cyfeiriad at y Bloc wrth wneud cyllidebau ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Mae ganddynt hefyd bryderon ynghylch addasrwydd defnyddio’r Bloc ac wedi cytuno i edrych ar ddulliau amgen, yn enwedig gan nad yw’r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar gael pan mae Comisiwn y Cynulliad ac OGCC yn cyflwyno eu Hamcangyfrifon.

Diolch am roi’r cyfle i mi ymateb.

Yn gywir



**Nick Bennett**
Ombwdsmon

Eitem 3

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/MD/4033/18

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Rhagfyr 2018

Annwyl Llyr,

Amgaeaf gopi o adroddiad diweddaraf Gweinidogion Cymru ar gyflawni a gweithredu Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014.

Mae'r adroddiad y rwyf wedi ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol heddiw, yn rhoi crynodeb o'r gwaith pwysig sydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rwy'n disgwyl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru anfon copi o'i adroddiad ar weithredu Deddf Cymru ataf, a byddaf yn gosod yr adroddiad hwnnw gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn y man.

Cofion gorau,



**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y pedwerydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru ar weithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I'w ddwyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gyflwyno i'r Senedd, yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2018



OGL © Hawlfraint y Goron 2018
WG36499 ISBN digidol 978-1-78964-473-9 ISBN argraffu 978-1-78964-474-6

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhagair** | 1 |
| **Cyflwyniad** | 2 |
| **Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru** | 3 |
| **Cyfraddau treth incwm Cymru** | 6 |
| **Y gallu i greu treth newydd i Gymru** | 8 |
| **Benthyca** | 12 |
| **Rhagolygon ac addasiad i'r grant bloc** | 14 |
| **Atodiad 1: Rheoliadau** | 16 |
| **Atodiad 2: Ymgysylltu** | 17 |
| **Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth** | 19 |
| **Atodiad 4: Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn** | 21 |

## Rhagair




Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn benllanw ar fwy na phum mlynedd o waith i ddatblygu'r trethi cyntaf i Gymru yn y cyfnod modern hwn, sef y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Cyflwynwyd y trethi hyn, a gesglir ac a reolir gan yr awdurdod newydd, sef Awdurdod Cyllid Cymru, mewn modd didrafferth ac effeithlon ar 1 Ebrill 2018, a hynny yn rhannol o ganlyniad i ansawdd y cyngor a roddwyd gan y nifer helaeth o sefydliadau ac unigolion sydd wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru, ac, yn fwy diweddar, Awdurdod Cyllid Cymru, trwy'r prosesau cynllunio a phrofi systemau. Rwy'n ddiolchgar am y cymorth hwn.

Byddwn yn cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru ar 6 Ebrill 2019, yn unol â'r amserlen. CThEM sy'n gyfrifol am weinyddu a chasglu cyfraddau treth incwm Cymru – felly hefyd y dreth incwm ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod amgylchiadau unigryw Cymru yn cael eu hystyried a'u hadlewyrchu yn y trefniadau newydd. Ym mis Hydref, cyhoeddais y cyfraddau cyntaf o ran treth incwm Cymru, a bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio yn eu cylch yn rhan o broses derfynol y Gyllideb.

Cyfraddau treth incwm Cymru fydd yr elfen derfynol o ddarpariaethau ariannol Deddf Cymru 2014 a gyflwynir. Bydd hyn yn dod â chyfnod o newid sylweddol i Gymru i ben, gan symud oddi wrth sefyllfa lle roedd ein cyllideb yn cael ei phennu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy gyfrwng grant bloc i sefyllfa lle bydd tua 20% o'n cyllideb yn cael ei chodi trwy bwerau treth Cymru.

Hoffwn ddiolch i'r Cynulliad Cenedlaethol am graffu ar y gwaith o weithredu darpariaethau ariannol Deddf Cymru 2014. Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, y rhanddeiliaid, a'r arbenigwyr ar drethi o bob cwr o Gymru wrth i ni gwblhau'r gwaith o gyflwyno'r trethi yn raddol a chanolbwyntio ar ddatblygu polisi trethi sy'n nodweddiadol i Gymru, gan sicrhau bod gennym ymagwedd egwyddorol, sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau ehangach o ran polisi i fynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i Gymru.



Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Rhagfyr 2018

## Cyflwyniad

O dan adran 23 o Ddeddf Cymru 2014[1], mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wneir o ran gweithredu'r darpariaethau yn Rhan 2, a hynny tan y bydd blwyddyn wedi mynd heibio oddi ar gyfnod gweithredu'r darpariaethau terfynol. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol gan Weinidogion Cymru.

Mae adran 23(7) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol am y darpariaethau ariannol:

(a) *Datganiad o'r camau sydd wedi cael eu cymryd, pa un ai gan luniwr yr adroddiad neu gan eraill, ers llunio'r adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

(b) *Datganiad o'r camau y mae lluniwr yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, pa un ai gan luniwr yr adroddiad neu gan eraill, tuag at weithredu darpariaethau'r Rhan hon,*

(c) *Asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi cael eu rhoi ar waith,*

(d) *Asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyg arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau a gyflwynir neu a ddiwygir gan y Rhan hon,*

(e) *Datganiad o ran effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru), ac*

(f) *Unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru, ac y mae lluniwr yr adroddiad yn ystyried y dylid eu dwyn i sylw'r Senedd neu'r Cynulliad.*

Nid yw'n ofynnol i'r adroddiadau fynd i'r afael â'r adrannau canlynol o Ddeddf Cymru 2014 – adran 10 (trethdalwyr Cymru i ddibenion nawdd cymdeithasol neu gynnal plant); adran 11 (Diwygiadau i'r diffiniad o drethdalwr o'r Alban) ac adran 22 (Gweithdrefnau cyllidebol).

Disgwylir i'r adroddiadau gael eu cyhoeddi bob blwyddyn, a hynny cyn pen blwyddyn i'r dyddiad y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol, sef 17 Rhagfyr 2014. Bydd disgwyl i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi flwyddyn ar ôl y diwrnod y bydd yr olaf o'r darpariaethau yn Rhan 2 yn cael ei gweithredu, neu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl wedi hynny.

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

## Trethi Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru

Treth trafodiadau tir

Mae Adran 15 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth ar drafodiadau sy'n ymwneud â buddiannau mewn tir yng Nghymru. Mae Adran 16 ac Atodlen 2 yn diwygio deddfwriaeth y Deyrnas Unedig i ddiddymu treth dir y dreth stamp yn y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Chymru. Mae adran 17 yn ymwneud â darparu gwybodaeth am drafodiadau tir yng Nghymru i CThEM.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai treth dir y dreth stamp yn 'dirwyn i ben' o fis Ebrill 2018[2].

Treth gwarediadau tirlenwi

Mae Adran 18 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddeddfu ar gyfer treth ar warediadau tirlenwi yng Nghymru. Mae Adran 19 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 i ddiddymu treth dirlenwi y Deyrnas Unedig mewn perthynas â Chymru.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014), hefyd yn datgan y byddai'r dreth dirlenwi yn dirwyn i ben o fis Ebrill 2018.

Defnyddiodd y Trysorlys y pwerau yn adrannau 16 ac 19 o Ddeddf Cymru 2014 i orchymyn[3] bod treth dir y dreth stamp a threth gwarediadau tirlenwi y Deyrnas Unedig yn cael eu diddymu yng Nghymru ar 1 Ebrill 2018.

### Trethi Cymru

1. Daeth Deddfau Trethi Cymru[4] i rym ar 1 Ebrill 2018, gan alluogi Awdurdod Cyllid Cymru i ddechrau casglu'r ddwy dreth gwbl ddatganoledig, sef y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, ar 1 Ebrill 2018.

2. Cyhoeddwyd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y ddwy dreth gan Lywodraeth Cymru yn rhan o broses Cyllideb 2018-19. Cyhoeddwyd y cyfraddau dangosol ar 3 Hydref 2017 yn yr *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru* 2017, a hynny ochr yn ochr â'r Gyllideb amlinellol ddrafft, er mwyn cynorthwyo'r gwaith o graffu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch gwariant a threthu, yn ogystal â chyflwyno syniad bras i'r trethdalwyr. Yn dilyn asesiad o effaith treth dir y dreth stamp ar Gymru yn sgil y

[2] *Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol* Cm 8838, para 16: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294471/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf
[3] Deddf Cymru 2014, Adrannau 16 ac 19 (Diddymu Treth Dir y Dreth Stamp y Deyrnas Unedig a Threth Dirlenwi y Deyrnas Unedig) (Dyddiad Penodedig) Gorchymyn 2018 (S.I. 2018/214).
[4] Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

newidiadau a wnaed iddi gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghyllideb yr Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfraddau diwygiedig ar gyfer y dreth trafodiadau tir ar 11 Rhagfyr 2017[5].

3. Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol ar y rheoliadau i ddod â chyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi[6] i rym ar 30 Ionawr 2018, ac maent wedi cael eu cymhwyso ers i'r trethi ddod i rym ar 1 Ebrill 2018.[7]

4. Bydd y cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y dreth trafodiadau tir yn parhau mewn grym hyd nes y cânt eu diwygio. Bwriad y Llywodraeth yw cynyddu cyfraddau'r dreth gwarediadau tirlenwi yn unol â chwyddiant yn 2019-20, gan gynnal cysondeb ag ymagwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig at gyfraddau'r dreth dirlenwi. Cyflwynwyd y rheoliadau sy'n gosod y cyfraddau newydd ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi ar 26 Tachwedd, er mwyn i'r Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried ar ddechrau 2019.

5. Mae'r wybodaeth am ffurflenni treth a refeniw a godir trwy drethi Cymru yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol gan Awdurdod Cyllid Cymru[8]. Mae'r data diweddaraf ar y dreth gwarediadau tirlenwi, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2018, yn dangos bod £25.3m o dreth refeniw yn ddyledus i Awdurdod Cyllid Cymru o ganlyniad i warediadau tirlenwi. Mae'r data diweddaraf ar y dreth trafodiadau tir, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Hydref 2018, yn dangos bod £131.7m yn ddyledus i Awdurdod Cyllid Cymru o ganlyniad i'r dreth trafodiadau tir.

6. Bu bwrdd y rhaglen datganoli trethi, dan arweiniad CThEM, yn goruchwylio'r broses o drosglwyddo treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi i'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, yn ôl eu trefn. Mae'r bwrdd hefyd yn goruchwylio prosiect cyfraddau treth incwm Cymru – (gweler paragraff 18). Mae cyfarwyddwr Trysorlys Cymru a dirprwy gyfarwyddwr Trethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu yn aelodau o fwrdd y rhaglen datganoli trethi, sy'n cynnig llwybr i ddatrys heriau ar lefel y prosiect, yn ogystal â goruchwylio'r broses o bontio i drefniadau busnes arferol o ran perthynas Llywodraeth Cymru â CThEM.

7. Mae CThEM wedi cadarnhau bod ad-daliad blynyddol gwerth £172,473 yn ddyledus i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i beidio â gweithredu treth dir y dreth stamp na'r dreth dirlenwi yng Nghymru mwyach. Disgwylir y bydd prosiect pontio treth dir y dreth stamp/y dreth dirlenwi yn dod i ben yn 2018-19, a hynny yn amodol ar gwblhau'r newidiadau Technoleg Gwybodaeth terfynol gan CThEM.

---

[5] Mae'r cyfraddau a'r bandiau ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i'w gweld yma:
Y Dreth Trafodiadau Tir:
https://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/land-transaction-tax/?lang=cy
Y Dreth Gwarediadau Tirlenwi:
https://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/landfill-disposals-tax/?lang=cy
Datganiad y Cabinet (Rhagfyr 2017) ynghylch y newidiadau i gyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir:
https://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2017/lttratesandbands/?lang=cy
Darperir rhagor o wybodaeth am osod cyfraddau trethi Cymru yn yr *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2017* (Hydref 2017) a'r *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru – diweddariad trethi datganoledig* (Ionawr 2018):
https://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/?lang=cy
[6] Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (S.I. 2018/128).
[7] Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (S.I. 2018/131).
[8] Y data diweddaraf ar y dreth trafodiadau tir:
https://beta.llyw.cymru/ystadegaur-dreth-trafodiadau-tir
Data ar y dreth gwarediadau tirlenwi:
https://beta.llyw.cymru/ystadegaur-dreth-gwarediadau-tirlenwi

8. Rhestrir y rheoliadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn Atodiad 1.

**Awdurdod Cyllid Cymru**

9. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y llythyr cylch gwaith cyntaf i Awdurdod Cyllid Cymru ar 19 Rhagfyr 2018. Roedd y llythyr hwn yn amlinellu tair blaenoriaeth, sef:
    1) Datganoli'r broses o gasglu trethi – er mwyn galluogi pobl i dalu'r swm cywir o dreth, a hynny ar yr adeg gywir;
    2) Rheoli'r system dreth ddatganoledig er mwyn helpu i atal achosion o efadu trethi ac osgoi trethi, yn ogystal â mynd i'r afael â nhw;
    3) Darparu gwasanaethau cyhoeddus – arwain gwelliannau i'r broses o weinyddu trethiant datganoledig ledled Cymru.

10. Ym mis Tachwedd 2017, lansiwyd siarter Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn ymgynghori yn ei gylch, gan ddenu dros 120 o ymatebion a arweiniodd at sefydlu *Ein Siarter,* a gyhoeddwyd ar 29 Mawrth 2018[9]. Mae *Ein Siarter* yn nodi'r modd y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno system dreth sy'n deg i Gymru, a hynny gyda chyfrifoldebau, gwerthoedd ac ymddygiadau a rennir sy'n ymatebol, yn ddwyieithog, yn gywir, yn effeithlon, yn ennyn diddordeb, yn deg, yn gefnogol, ac yn ddiogel.

11. Mae cynllun corfforaethol cyntaf Awdurdod Cyllid Cymru[10], a gyhoeddwyd ar 27 Ebrill 2018, yn cwmpasu blwyddyn ac yn canolbwyntio ar y tair blaenoriaeth a nodwyd yn llythyr cylch gwaith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid.

12. Mae cynllun corfforaethol Awdurdod Cyllid Cymru yn cynnwys *Ein Dull o Weithredu*, sef cyfres o egwyddorion sy'n pennu ffordd Gymreig o drethu ac yn diffinio'r gwaith o weinyddu trethi fel ymdrech ar y cyd er budd pawb, gan flaenoriaethu cydweithio i sicrhau bod y swm cywir o dreth yn cael ei dalu, a hynny ar yr adeg gywir. Mae'n cydnabod y bydd dulliau gweithredu gwahanol yn angenrheidiol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

13. Mae pwyslais *Ein Dull o Weithredu* yn ymwneud â chefnogi trethdalwyr i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf, gan ganolbwyntio ar ymdrechion ac adnoddau i sicrhau bod cyfran helaeth o'r dreth sy'n ddyledus yn cael ei chasglu ar yr adeg iawn, yn hytrach na neilltuo adnoddau i fynd i'r afael ag ymholiadau ac ymchwiliadau wedi hynny. Rhoddodd Awdurdod Cyllid Cymru *Ein Dull o Weithredu* ar waith yn gynnar. Roedd y gwaith o ymgysylltu â thrawsgludwyr yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru, yn allweddol o ran sicrhau cyfnod pontio llyfn wrth gyflwyno'r trethi newydd.

14. Mae technoleg gorfforaethol Awdurdod Cyllid Cymru yn seiliedig ar dechnoleg cwmwl er mwyn galluogi staff i weithio a chydweithredu mewn amser real mewn unrhyw leoliad, gan gynnal lefelau uchel o ddiogelwch ar yr un pryd. Mae system rheoli treth Awdurdod Cyllid Cymru, a lansiwyd ar 1 Ebrill 2018, hefyd yn fenter cwmwl sy'n galluogi dros 1,500 o sefydliadau i gyflwyno eu ffurflenni treth ar-lein.

---

[9] *Ein Siarter* Awdurdod Cyllid Cymru:
https://beta.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru/acc-siarter
[10] Cynllun corfforaethol 2018-19 Awdurdod Cyllid Cymru:
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/180430-acc-cynllun-corfforaethol-a.pdf

## Cyfraddau treth incwm Cymru

Mae Adrannau 8 i 11 o Ddeddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer cyfraddau treth incwm sylfaenol, uwch ac ychwanegol yng Nghymru sydd i'w pennu gan y Cynulliad Cenedlaethol trwy benderfyniad, ac yn rhoi diffiniad pellach o "drethdalwyr Cymru".

Pan gafodd Deddf Cymru 2014 ei deddfu gyntaf, roedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer refferendwm a oedd i'w gynnal yng Nghymru ynghylch a ddylai'r darpariaethau treth incwm a bennwyd yn y Ddeddf ddod i rym ai peidio. Yn ddiweddarach, cafodd y darpariaethau hyn mewn perthynas â refferendwm eu dileu gan adran 17 o Ddeddf Cymru 2017[11].

Cadarnhaodd fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Rhagfyr 2016, y byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru yn ystod 2019-20, a hynny'n amodol ar ddileu'r gofyniad am refferendwm.

15. Bydd cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu cyflwyno ar 6 Ebrill 2019, fel yr amlinellir yn y fframwaith cyllidol y cytunwyd arno gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2016. Ar gyfer incwm nad yw'n deillio o ddifidend na chynilion, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn tynnu 10c oddi ar y tair cyfradd treth incwm a delir gan drethdalwyr Cymru[12], sef sylfaenol, uwch ac ychwanegol. Yna, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ar gyfraddau Cymru a fydd yn cael eu hychwanegu at gyfraddau gostyngedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

16. Bydd CThEM yn gyfrifol am gasglu a rheoli cyfraddau treth incwm Cymru. Yn nhermau cyfreithiol a chymhwysedd, bydd y dreth hon yn parhau yn dreth y Deyrnas Unedig, felly hefyd trefniadau cysylltiedig ar gyfer lwfansau a rhyddhadau (gan gynnwys y lwfans personol), y trothwyon a'r bandiau treth. Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau i gadw'r refeniw sy'n deillio o dreth incwm ar gynilion ac incwm difidend gan drethdalwyr yng Nghymru.

17. Yn y Gyllideb ddrafft amlinellol, cynigiodd Llywodraeth Cymru y dylid gosod cyfraddau treth incwm Cymru ar gyfer 2019-20 yn 10c. Bydd hyn yn golygu y bydd y cyfraddau treth incwm a delir gan drethdalwyr yng Nghymru yr un peth â'r rheiny a delir gan drethdalwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn pleidleisio ar y cyfraddau yn rhan o broses derfynol y Gyllideb ar ddechrau 2019.

18. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru yn cael ei oruchwylio gan fwrdd prosiect traws-lywodraethol cyfraddau treth incwm Cymru, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, CThEM, Trysorlys EM, Swyddfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae ei brif amcanion yn cynnwys:
    - Nodi trethdalwyr treth incwm Cymru yn gywir;
    - Rhoi gwybod i drethdalwyr a chyflogwyr am y newidiadau sy'n deillio o gyfraddau treth incwm Cymru;

[11] Cafodd Deddf Cymru 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

[12] Diffinnir trethdalwyr Cymru yn Adran 8 o Ddeddf Cymru 2014 'Cyfraddau treth incwm Cymru'; fodd bynnag, bydd y rhain fel arfer yn bobl a fydd yn preswylio yng Nghymru: http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/section/8/enacted

- Rhoi codau treth newydd i drethdalwyr treth incwm Cymru ar gyfer pob system CThEM berthnasol (gan gynnwys sicrhau bod data'n cael eu trosglwyddo mewn modd effeithiol rhwng systemau perthnasol CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau).

19. Mae CThEM wedi gwneud gwaith helaeth i nodi pob trethdalwr (tua 1.35 miliwn o bobl) yng Nghymru a fydd yn ddarostyngedig i gyfraddau treth incwm Cymru o 6 Ebrill 2019 ymlaen. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu cronfa ddata o drethdalwyr Cymru a fydd yn cael ei chynnal a'i chadw a'i diweddaru'n barhaus er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yn talu'r cyfraddau treth incwm perthnasol yn ôl lle y maent yn byw.

20. Ym mis Tachwedd 2018, anfonodd CThEM lythyr hysbysu at bob trethdalwr treth incwm a chwsmeriaid CThEM perthnasol sy'n byw yng Nghymru (cyfanswm o ychydig dros 2 miliwn o bobl) er mwyn rhoi gwybod iddynt am y trefniadau newydd. Roedd y llythyr yn cynnwys taflen gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y newidiadau.

21. Mae CThEM a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar waith cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl ynghylch cyfraddau treth incwm Cymru er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf ledled y sianeli gweithredol a chwsmeriaid, yn ogystal â sicrhau lefel gynyddol o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymysg dinasyddion yng Nghymru.

22. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei gomisiynu i ddarparu lefel sylfaenol o ymwybyddiaeth, a fydd yn cael ei mesur drachefn ym mis Mawrth 2019. Mae gwaith profi defnyddwyr hefyd wedi cael ei wneud i sicrhau bod negeseuon yn eglur ac i brofi naratif ehangach, sydd wedi cael ei ddatblygu i roi cyd-destun a chyfeiriad strategol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu y tu hwnt i fis Ebrill 2019.

23. Ym mis Rhagfyr 2018, disgwylir y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gosod rheoliadau i roi cyfraddau treth incwm Cymru ar waith: Gorchymyn Cyfraddau Treth Incwm Datganoledig (Diwygiadau Canlyniadol) 2018 a Rheoliadau'r Dreth Incwm (Talu Wrth Ennill) (Diwygiad rhif 2) 2018.

24. Mae CThEM wedi mireinio ei amcangyfrif lefel uchel o gyfanswm cost rhoi'r newidiadau angenrheidiol i'w systemau ar waith, a hynny er mwyn cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru gwerth rhwng £7.5 miliwn a £9.5 miliwn dros y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi amcangyfrif y bydd y gost yr eir iddo yn 2018-19 wrth newid y system i gynnwys y Lwfans Ceisio Gwaith, y Credyd Cynhwysol a phensiynau yn llai na £200,000.

## Y gallu i greu treth newydd i Gymru

Mae Adran 6 o Ddeddf Cymru 2014 yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn galluogi trethi datganoledig newydd i gael eu creu wrth i Ei Mawrhydi wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Ni ellir gwneud argymhelliad i Ei Mawrhydi wneud Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor tan y bydd drafft o'r offeryn statudol, sy'n cynnwys y Gorchymyn, yn cael ei gyflwyno gerbron dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â'i gymeradwyo ganddynt. Gallai'r rhain fod yn drethi cyfredol y Deyrnas Unedig y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn eu datganoli i Gymru, neu'n drethi sydd newydd gael eu creu gan Lywodraeth Cymru mewn meysydd lle mae cyfrifoldeb wedi cael ei ddatganoli.

Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig law yn llaw â Bil Cymru (Mawrth 2014) yn rhoi rhagor o fanylion am y modd y byddai cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer trethi newydd, yn y lle cyntaf, yn cael eu hasesu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

25. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y modd y byddai'n bwrw ymlaen â'r pedwar syniad newydd a gyhoeddwyd ganddo ym mis Hydref 2017, sef treth ar dir gwag, ardoll i ariannu gofal cymdeithasol, treth ar ddeunydd plastig untro, a threth ar dwristiaeth[13]. Bydd y dreth ar dir gwag yn cael ei defnyddio i brofi'r mecanwaith ar gyfer cyflwyno trethi newydd, ond mae yna waith yn mynd rhagddo o ran y tri syniad arall.[14]

**Treth ar dir gwag a'r broses rynglywodraethol ar gyfer trethi newydd**

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad Cenedlaethol i gytuno ar y modd y dylid rheoli'r broses o ddatganoli cymhwysedd ar gyfer trethi newydd. Mae Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM wedi cytuno ar broses lle bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei ystyried, cyn y caiff Gorchymyn drafft ei ystyried gan ddau Dŷ'r Senedd.

27. Mae'r broses y cytunwyd arni gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM o ran rhoi pwerau treth newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei llywodraethu gan Gyd-Bwyllgor y Trysorlys (JEC), a hynny dan arweiniad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a chyda chymorth gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig (JEC(O)). Mae yna naw cam, a ddisgrifir isod[15]:

    1) Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Weinidogion Trysorlys Ei Mawrhydi am ei bwriad i geisio sicrhau pŵer trethu newydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol:

[13] Datganiad y Cabinet am y syniadau trethi newydd (13 Chwefror 2018): https://llyw.cymru/newsroom/finance1/2018/180213-vacant-land-tax-idea-to-be-used-to-test-wales-act-powers/?lang=cy
[14] Darperir rhagor o wybodaeth am y dreth ar dir gwag a syniadau trethi newydd eraill yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018, Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 17: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf
[15] Mae yna grynodeb o gamau allweddol y broses rynglywodraethol i'w weld yma: https://llyw.cymru/docs/caecd/publications/180213-developing-infographic-cy.pdf

- Caiff y lefelau swyddogol eu harchwilio, gan arwain at
- Drafodaeth ymysg Gweinidogion yn ystod cyfarfod JEC

2) Bydd Llywodraeth Cymru yn llunio cynnig:
   - Bydd swyddogion yn nodi'r hyn sy'n ofynnol i gefnogi'r cynnig ac yn cytuno ar raglen waith i'w lunio (gan gynnwys amserlen).
   - Bydd hyn yn cynnwys Gorchymyn drafft a thystiolaeth i alluogi'r cynigion i gael eu hasesu (gweler cam rhif chwech).
   - Trafodaeth yn ystod cyfarfod JEC(O)/JEC

3) Bydd y gwaith cytunedig yn cael ei wneud.

4) Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig am y pwerau trethu newydd (gan gynnwys y Gorchymyn drafft a thystiolaeth/data ategol).

5) Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y cynnig i roi'r pŵer trethu arfaethedig i'r Cynulliad Cenedlaethol, a hynny'n unol â pholisi y Deyrnas Unedig o ran llunio polisïau treth.
   - Er na fyddai angen glynu wrth gylch treth y Deyrnas Unedig, gallai fod yn gyfleus cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch datganoli pwerau yn y Gyllideb a chadarnhau penderfyniad ynghylch a ddylid gwneud hynny yn rhan o'r Gyllideb ddilynol, ai peidio;
   - Gallai'r ymgynghoriad hefyd ofyn am safbwyntiau er mwyn helpu i lywio achos Llywodraeth Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol yn meddu ar y cymhwysedd cywir (gweler cam rhif wyth).

6) Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn asesu'r cynnig a'r dystiolaeth:
   - Amlinellir rhagor o fanylion ym mhapur Gorchymyn Bil Cymru 2014.

7) Bydd y cynnig yn cael ei gwblhau:
   - Bydd y cynnig yn cael ei adolygu/ddiwygio, a chyflwynir tystiolaeth ychwanegol, yn ôl yr angen.
   - Trafodaeth yn ystod cyfarfod JEC(O)/JEC
   - Cytundeb Gweinidogol

8) Deddfwriaeth:
   - Bydd y Gorchymyn Drafft yn cael ei gyflwyno gerbron dau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig a'r Cynulliad Cenedlaethol, a'i gymeradwyo trwy benderfyniad cadarnhaol
   - Bydd Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn cael ei wneud gan CThEM

9) Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r pwerau newydd ar waith yn unol â'i phrosesau arferol o ran llunio polisïau, deddfu a gweithredu.

28. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cytuno ar Orchymyn Sefydlog diwygiedig ar gyfer ystyried Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 116C o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014.

29. Wrth baratoi ar gyfer datganoli cymhwysedd, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio gyda rhanddeiliaid i ddeall yn well y materion sy'n ymwneud â thir gwag yng

Nghymru, ynghyd â dechrau llunio opsiynau polisi. Mae grŵp cyfeirio o randdeiliaid allweddol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn cefnogi'r gwaith hwn.

**Ardoll gofal cymdeithasol**

30. Mae grŵp rhyngweinidogol ar dalu am ofal cymdeithasol wedi cael ei sefydlu o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog dros Blant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, ac mae'n cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gweinidog dros Dai ac Adfywio[16].

31. Yn rhan o'i gylch gwaith, bydd y grŵp rhyngweinidogol yn ystyried adroddiad annibynnol yr Athro Gerald Holtham, *Talu am Ofal Cymdeithasol,* sy'n darparu dadansoddiad economaidd dangosol o system yswiriant cymdeithasol uwch a allai helpu i ariannu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru[17]. O dan gynnig yr Athro Holtham, byddai'r enillion sy'n deillio o'r ardoll yn cael eu rhoi mewn cronfa wedi'i chlustnodi, a allai ddarparu cymorth ychwanegol i ddiwallu anghenion gofal uniongyrchol y boblogaeth, yn ogystal â chynnig yswiriant mewn perthynas â'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am ofal gan genedlaethau'r dyfodol.

**Treth ar ddeunydd plastig untro**

32. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch gwaith i ystyried treth ar ddeunydd plastig untro, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi galw am dystiolaeth – *Tackling the Plastic Problem.* Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i annog sefydliadau yng Nghymru i gyfrannu tystiolaeth, ynghyd ag ystyried y 162,000 o ymatebion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau, arbenigwyr a'r gymuned ehangach o randdeiliaid yng Nghymru i sicrhau bod diddordebau ac anghenion Cymru yn cael eu diwallu wrth ddatblygu cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig[18].

33. Yng Nghyllideb yr Hydref 2018, cadarnhaodd y Canghellor gynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno treth ar gynhyrchu a mewnforio deunydd pacio plastig o fis Ebrill 2022 ymlaen, a hynny ochr yn ochr â'r diwygiadau a gynlluniwyd eisoes o ran y system sy'n seiliedig ar gyfrifoldeb cynhyrchwyr deunyddiau pacio. Bydd y ddau gynnig yn amodol ar ymgynghoriad yn fuan. Daeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd i'r casgliad na fyddai cyflwyno ardoll ar bob cwpan yn ddull effeithiol ar hyn o bryd o annog rhagor o bobl i'w hailddefnyddio, a hynny gan fod busnesau eisoes yn cymryd camau i gyfyngu ar eu heffaith amgylcheddol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd wedi ymrwymo i ailystyried y mater os na wneir cynnydd digonol.

---

[16] Darperir rhagor o wybodaeth am yr ardoll gofal cymdeithasol yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018, Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 19:
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf

[17] Adroddiad annibynnol yr Athro Gerald Holtham i Lywodraeth Cymru, *Talu am Ofal Cymdeithasol* (Mehefin 2018):
https://beta.llyw.cymru/node/6120

[18] Darperir rhagor o wybodaeth am yr ardoll ar ddeunydd plastig untro yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018, Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 22:
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf

34. Mae Llywodraeth Cymru yn asesu manylion dull gweithredu Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran ystyried y ffordd orau ymlaen a sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn parhau yn rhan o'r broses, gan gasglu barn rhanddeiliaid Cymru er mwyn llywio ymatebion i ymgyngoriadau yn y dyfodol ynghylch cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

**Treth ar dwristiaeth**

35. Mae Llywodraeth Cymru yn archwilio'r ffyrdd y gellid rhoi pwerau caniataol i awdurdodau lleol ddatblygu a gweithredu treth leol ar dwristiaeth, gan weithio gyda'r sector twristiaeth a llywodraeth leol i ddechrau archwilio effaith bosibl treth leol ar dwristiaeth, ynghyd â'r buddion a'r pryderon a fynegwyd gan y sector twristiaeth ynghylch y syniad hwn[19].

36. Mae'r gwaith hwn wedi nodi'r modd y mae anghenion ac effeithiau twristiaeth yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, ynghyd â rhai ystyriaethau allweddol o ran polisi, gan gynnwys y berthynas rhwng treth ar dwristiaeth a TAW ar lety twristiaid; y modd y byddai trethi lleol ar dwristiaeth yn rhyngweithio â meysydd polisi allweddol eraill, er enghraifft trethi lleol a phwysau rheoleiddiol cyfredol. Y bwriad yw parhau i archwilio'r materion hyn mewn partneriaeth â'r diwydiant twristiaeth ac awdurdodau lleol.

[19] Darperir rhagor o wybodaeth am dreth ar dwristiaeth yn yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru 2018, Llywodraeth Cymru (Hydref 2018), tudalen 24: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/adroddiad-ar-bolisi-trethi-cymru-2018.pdf

## Benthyca

Gwelwyd adrannau 20 a 21 o Ddeddf Cymru 2014 yn diddymu'r pŵer benthyca o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975, ac yn estyn pŵer benthyca Gweinidogion Cymru o dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a hynny yn weithredol o 1 Ionawr 2017. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca hyd at £500 miliwn i reoli llif arian (er mwyn lliniaru amrywiadau mewn derbynebau treth a mynd i'r afael â diffyg cyfatebiaeth dros dro rhwng treth a gwariant) ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi, yn eu galluogi i fenthyca hyd at £500 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf.

Benthyca Cyfalaf:

- O fewn y trothwy o £500 miliwn ar gyfer benthyca cyfalaf, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn;
- Dim ond o’r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol (trwy Lywodraeth y Deyrnas Unedig) neu gan fanciau masnachol y gellir benthyca cyfalaf;
- Hyd nes y bydd y pwerau benthyca cyfalaf newydd yn dod i rym (a gynllunnir ar gyfer mis Ebrill 2018), gall Llywodraeth Cymru fenthyca o dan Atodlen 3 o Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 er mwyn ariannu gwelliannau i’r M4 yn Ne-ddwyrain Cymru;
- Bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn adolygu terfyn uchaf Llywodraeth Cymru ar gyfer benthyca cyfalaf yn ystod pob Adolygiad o Wariant, a hynny yng ngoleuni amgylchiadau economaidd a chyllidol, yn ogystal â lefel y trethiant datganoledig.

Benthyca Refeniw:

- O fewn y terfyn o £500 miliwn ar gyfer benthyca refeniw, gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £200 miliwn y flwyddyn;
- Bydd cronfa wrth gefn newydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru i reoli ansefydlogrwydd trwy ddarparu ffordd o arbed 'refeniw dros ben', (er enghraifft derbynebau treth sy'n uwch na'r disgwyl). Yr alwad gyntaf o ran refeniw dros ben fydd ad-dalu unrhyw arian sydd wedi'i fenthyca ar y pryd, ac, ar ôl hynny, gallai unrhyw arian sy'n weddill gael ei dalu i gronfa wrth gefn neu ei ddefnyddio i ariannu gwariant cyhoeddus ychwanegol ar fater datganoledig.

Ym mis Chwefror 2015, yn dilyn trafodaethau rhynglywodraethol a thrawsbleidiol, cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i estyn pwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynnwys cyhoeddi bondiau[20].

Diwygiodd Deddf Cymru 2017 Adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i godi terfyn benthyca cyfalaf Gweinidogion Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn.

### Benthyca Cyfalaf

37. O dan y fframwaith cyllidol, y cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig arno ym mis Rhagfyr 2016, bydd y terfyn benthyca cyfalaf blynyddol yn

[20] Papur Gorchymyn *Pwerau at bwrpas: tuag at setliad datganoli sy’n para i Gymru* (Cm 9020), 27 Chwefror 2015, pennod 4, tudalen 51: https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

cynyddu o £125 miliwn i £150 miliwn pan fydd cyfraddau treth incwm Cymru yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2019.

38. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio gwerth hyd at £250 miliwn o fenthyca cyfalaf yn ystod y ddwy flynedd nesaf (£125 miliwn y flwyddyn yn 2019-20 a 2020-21). Bydd y £50 miliwn sy'n weddill (£25 miliwn y flwyddyn ar gyfer 2019-20 a 2020-21) yn cael ei gadw wrth gefn.

39. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i'r defnydd o fenthyca cynlluniedig yn ystod pob cyfnod cyllidebol, ac mi fydd ond yn cael ei ddefnyddio pan fydd pob ffynhonnell gonfensiynol, ratach o gyllid cyfalaf sydd ar gael wedi cael ei disbyddu.

40. Mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru[21], mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Amrywio Pŵer Benthyca) 2018, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

**Benthyca refeniw a Chronfa Wrth Gefn Cymru**

41. Oherwydd methodoleg y gwrthbwysiad i'r grant bloc y cytunwyd arni ar gyfer treth incwm, yn rhan o'r fframwaith cyllidol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r terfyn benthyca refeniw o £500 miliwn a ddarperir gan Ddeddf Cymru 2014 fod yn ddigonol i gwmpasu amrywiadau yn y ffrwd gyllid sy'n deillio o bwerau trethu datganoledig.

42. Cyflwynwyd Cronfa Wrth Gefn Cymru ym mis Ebrill 2018, gan olygu bod modd i adnoddau heb eu disbyddu o dderbynebau treth a'r grant bloc gael eu storio ar gyfer y dyfodol. Bydd Cronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei chapio ar £350 miliwn, a bydd y gallu blynyddol i dynnu arian i lawr yn cael ei gyfyngu i £125 miliwn ar gyfer gwariant refeniw, a £50 miliwn ar gyfer gwariant cyfalaf. Ni fydd yna unrhyw derfyn blynyddol ar daliadau i'r gronfa wrth gefn.

43. Ychwanegwyd £98.5 miliwn at Gronfa Wrth Gefn Cymru yn rhan o'r addasiad a wnaed er mwyn datganoli cyfraddau annomestig yn llwyr i Gymru o fis Ebrill 2015. Mae £227.1 miliwn pellach wedi cael ei hychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Cymru o ganlyniad i danwario yn 2017-18.

[21] Datganiad y Cabinet ynghylch bondiau Llywodraeth Cymru (Hydref 2018): https://beta.llyw.cymru/node/6319

## Rhagolygon ac addasiad i'r grant bloc

### Addasiad i'r grant bloc

44. Yn rhan o'r fframwaith cyllidol, cytunwyd ar y methodolegau ar gyfer addasu grant bloc Cymru yn dilyn datganoli pwerau trethu[22]. Mae'r addasiad ar gyfer 2018-19, sy'n cynnwys cyflwyno'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, ynghyd â dod â threth dir y dreth stamp a'r dreth tirlenwi i ben yng Nghymru, wedi cael ei adolygu ar sail *Rhagolygon Economaidd a Chyllidol* (Hydref 2018) y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidol[23]. Bydd yr addasiadau ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar y rhagolygon hynny, gan gynnwys yr hyn a fydd yn cyd-fynd â'r broses o gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru. Bydd yr addasiad treth incwm yn cael ei osod yn gyfartal â'r refeniw o gyfraddau Cymru yn y flwyddyn drosiannol gyntaf hon. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ystyried cyhoeddi manylion am yr addasiadau diwygiedig yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

45. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith dadansoddol i ganfod y modd y mae ymddygiad rhagbrynu wedi effeithio ar dreth dir y dreth stamp a'r dreth trafodiadau tir yn ystod y cyfnod pontio. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal trafodaethau ynghylch i ba raddau y dylai addasiad i'r grant bloc ganiatáu effaith ymddygiadol o'r fath. Fel effaith ymddygiadol orlifol untro datganoli trethi i Gymru, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r addasiad i'r grant bloc gael ei ailgyfrifo er mwyn rhoi ystyriaeth i effaith rhagbrynu.

46. Fel y nodir yn y fframwaith cyllidol, gan fod Llywodraeth Cymru yn gosod cyfraddau treth incwm Cymru ar 10c ar gyfer 2019-20 (sy'n gyfwerth â'r gostyngiad a wneir gan Drysorlys EM), bydd yr addasiad i grant bloc Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn gyfartal â'r derbynebau.

### Rhagolygon

47. Yn rhan o gytundeb y fframwaith cyllidol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno trefniadau newydd ar gyfer llunio rhagolygon refeniw annibynnol ar gyfer trethi datganoledig. Yn y byrdymor, cytunwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn llunio ei rhagolygon sicrwydd annibynnol ei hun, tra bo trefniadau mwy hirdymor yn cael eu rhoi ar waith.

48. Rhoddodd Ysgol Busnes Bangor sicrwydd annibynnol i ragolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer refeniw i'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi yn rhan o broses Cyllideb 2018-19[24]. Mae'r un trefniadau ar waith ar gyfer Cyllideb 2019-20, ond mae'r cwmpas wedi cael ei estyn i gynnwys sicrwydd o ran methodoleg rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfraddau treth incwm Cymru. Cyhoeddwyd adroddiad craffu a sicrhau annibynnol ochr yn ochr â'r gyllideb amlinellol ddrafft ar 2

[22] Gellir cael gwybodaeth am fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y cytundeb, trwy ddilyn y ddolen hon:
https://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/framework/?lang=cy
[23] https://cdn.obr.uk/EFO_October-2018.pdf
[24] *Gwaith craffu a sicrhau annibynnol ar ragolygon trethi datganoledig i Gymru,* Prifysgol Bangor (diweddariad Rhagfyr 2017):
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/diweddariad-i-adroddiad-terfynol-mis-hydref.pdf

Hydref[25]. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â'r Gyllideb derfynol ar 18 Rhagfyr.

49. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i drefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol i ddarparu rhagolygon refeniw trethi Cymru ar gyfer Cyllideb 2020-21 ac wedi hynny[26]. Bydd y trefniant newydd gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dechrau'n swyddogol ar 1 Ebrill 2019.

50. I gefnogi'r gwaith o gyflawni Cyllideb Llywodraeth Cymru, bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn llunio dau adroddiad. Bydd y rhain yn cynnwys rhagolygon ar gyfer trethi Cymru, sef y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, ynghyd â chyfraddau treth incwm Cymru a fydd yn seiliedig ar ragolygon macro-economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn ogystal ag unrhyw ddata penodol sy'n berthnasol i Gymru. Bydd rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol hefyd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw newidiadau ym mholisi trethi Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb amlinellol ddrafft Llywodraeth Cymru a'r Gyllideb derfynol.

51. At hynny, yn rhan o'r trefniadau newydd bydd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynyddu ei phresenoldeb yng Nghymru trwy ymgysylltu'n fwy sylweddol â sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb, gan gynnwys aelodau o Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd hyn yn darparu cyswllt rhwng cyhoeddi *Rhagolygon Economaidd a Chyllidebol* y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn y Gwanwyn a Chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

52. Bydd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018-19, ynghyd â chylch gorchwyl cysylltiedig. Bydd y trefniadau'n cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar ôl y flwyddyn gyntaf.

[25] Mae'r adroddiad *Gwaith craffu a sicrhau annibynnol ar ragolygon trethi datganoledig i Gymru,* Prifysgol Bangor (Hydref 2018), ar gael fel dogfen ategol trwy ddilyn y ddolen hon: https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/adroddiad-terfynol.pdf
[26] Datganiad y Cabinet ynghylch y trefniant gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol: https://beta.llyw.cymru/node/6128

## Atodiad 1: Rheoliadau

Offerynnau statudol a luniwyd oddi ar 16 Rhagfyr 2017.

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016:

i. Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Cofnodion Treth Gwarediadau Tirlenwi) (Cymru) 2018
ii. Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Trefniadau Talu'n Ôl) (Cymru) 2018
iii. Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaethau Canlyniadol ac Atodol) 2018
iv. Rheoliadau Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Darpariaeth Atodol) 2018

Lluniwyd o dan bwerau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017:

i. Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Gweinyddu) (Cymru) 2018
ii. Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018
iii. Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018
iv. Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018
v. Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Diwygio) 2018
vi. Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018

Lluniwyd o dan Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017:

i. Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018
ii. Rheoliadau Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (Rhyddhad Adfer Safle) (Diwygio) 2018
iii. Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

Lluniwyd o dan bwerau eraill:

i. Rheoliadau Awdurdod Cyllid Cymru (Pwerau i Ymchwilio i Droseddau) 2018
ii. Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) 2018
iii. Gorchymyn Deddf Enillion Troseddau 2002 (Cyfeiriadau at Ymchwilwyr Ariannol Awdurdod Cyllid Cymru) (Diwygio) 2018
iv. Gorchymyn Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig a Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol) (Diwygio) (Cymru) 2018

## Atodiad 2: Ymgysylltu

### Grŵp Cynghorol Trethi

Mae Grŵp Cynghorol Trethi Cymru yn darparu cyngor i Weinidogion Cymru ar y polisi trethi a'r systemau gweinyddu trethi, ac mae'n ystyried yr effaith y gall polisïau newydd ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru. Mae ei aelodaeth yn cynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau ac arbenigedd er mwyn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu cynrychioli ar y lefel uchaf.

Cadeirir y grŵp gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, ac mae'n cwrdd deirgwaith y flwyddyn.

*Cylch Gwaith*

- Darparu cyngor a chymorth o ran datblygu polisi trethi a systemau gweinyddu trethi yng Nghymru;
- Rhoi cyngor ar effaith ehangach polisi trethi Cymru ar randdeiliaid, yn ogystal ag ar economi a gwead cymdeithasol Cymru;
- Helpu i wella arferion cyfathrebu ledled amrywiaeth o randdeiliaid mewn perthynas â'r polisi trethi a'r systemau gweinyddu trethi, er mwyn cyfrannu'n well at ymgyngoriadau ynghylch trethi a deddfwriaeth trethi.

*Aelodau*[27]

Andrew Evans, Geldards LLP
Frank Haskew, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Y Cynghorydd Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Ben Francis, Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Robert Lloyd Griffiths, Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Martin Mansfield, TUC Cymru
Ruth Marks, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
David Phillips, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
Kay Powell, Cymdeithas y Cyfreithwyr
Ian Price, CBI Cymru
Leighton Reed, Broomfield & Alexander Ltd, yn cynrychioli Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Dr Victoria Winckler, Sefydliad Bevan

Mae rhagor o wybodaeth am Grŵp Cynghorol Trethi Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[28].

### Fforwm Trethi Awdurdod Cyllid Cymru

Cynhelir fforwm trethi Awdurdod Cyllid Cymru o leiaf ddwywaith y flwyddyn, dan gadeiryddiaeth prif weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru, a hynny mewn lleoliadau ledled Cymru. Mae'n gyfle i Awdurdod Cyllid Cymru ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol ym maes trethi gan ddefnyddio'r ddwy dreth ddatganoledig yng Nghymru (sef y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi), rhannu gwybodaeth, a rhoi hyfforddiant i gyfreithwyr,

---
[27] Aelodaeth ar 1 Rhagfyr 2018.
[28] https://beta.llyw.cymru/grwp-cynghorol-cymru-ar-drethi

trawsgludwyr a gweithredwyr safleoedd tirlenwi, yn ogystal â chynorthwyo Awdurdod Cyllid Cymru i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r pynciau trafod wedi cynnwys systemau trethi digidol, canllawiau, materion technegol a gwasanaethau i gwsmeriaid.

Mae'r fforwm trethi yn rhan annatod o *Ein Dull o Weithredu* Awdurdod Cyllid Cymru, sy'n esbonio'r modd y mae'n cydweithio â chynrychiolwyr, sefydliadau partner, trethdalwyr a'r cyhoedd i sicrhau bod trethi'n cael eu casglu mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru hefyd yn rhannu gwybodaeth â rhanddeiliaid, gan eu hannog i gyfrannu at arolwg ar wefan Awdurdod Cyllid Cymru neu trwy anfon neges e-bost i: dweudeichdweud@acc.llyw.cymru. Mae'r Awdurdod hefyd wedi sefydlu fforymau a sianeli cyfathrebu eraill, gan gynnwys ffrwd Twitter ddwyieithog: @ACCtrydar. Gellir dod o hyd i amrywiaeth o wybodaeth ar wefan Awdurdod Cyllid Cymru, gan gynnwys canllawiau ac adroddiadau corfforaethol: llyw.cymru/acc. Gellir darllen y newyddion diweddaraf gan Awdurdod Cyllid Cymru yn ei e-gylchlythyr corfforaethol, y gellir ei gyrchu trwy wefan yr Awdurdod.

**Ffyrdd eraill o gadw mewn cysylltiad**

Mae Trysorlys Cymru yn gweithio gyda sefydliadau yng Nghymru er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu polisi trethi a rhaeadru cynnwys i aelodau a rhwydweithiau. Os hoffech gael cyfraniad gan Drysorlys Cymru ar unrhyw agwedd ar ddatganoli cyllidol, cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost i: TrysorlysCymru@llyw.cymru

Mae'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, #FyNhrethFyNghymru, yn cyflwyno negeseuon ehangach sy'n dangos y cysylltiad rhwng trethi a gwariant ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae datganoli trethi yng Nghymru yn cael ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrif Twitter Trysorlys Cymru @TrysorlysCymru: https://twitter.com/TrysorlysCymru, a thrwy'r hashnod: #TrethiCymru

Mae tudalennau Trysorlys Cymru ar wefan Llywodraeth Cymru yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddatganoli trethi yng Nghymru, gan gynnwys cyhoeddiadau i'w darllen neu eu lawrlwytho – cyhoeddiadau ffurfiol, taflenni a thaflenni ffeithiau, fel ei gilydd: llyw.cymru/trethicymru

Defnyddir amrywiaeth o offer cyfathrebu, gan gynnwys inffograffeg, cardiau Twitter, arolygon SurveyMonkey a Doopoll, i gyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gellir dod o hyd i fideo sy'n cyflwyno gwybodaeth am drethi a gwariant yng Nghymru ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru[29].

[29] https://www.youtube.com/watch?v=lzRjhLyZRko

## Atodiad 3: Rhagor o wybodaeth

Mae yna amrywiaeth o wybodaeth am ddatganoli trethi i Gymru ar gael ar y Rhyngrwyd.

### Y Cefndir

Y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Comisiwn Holtham)

Sefydlwyd y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried y dull ariannu yng Nghymru a'r modd y gellid ei wella, gan gynnwys yr achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca. Cyhoeddodd y Comisiwn ddau adroddiad gydag argymhellion (2009 a 2010). Mae'r rhain, ynghyd â deunyddiau eraill a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, i'w cael yma:
http://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/framework/reports/?lang=cy

Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk)

Cafodd Comisiwn Llywodraeth y Deyrnas Unedig y dasg o ystyried trefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Rhoddodd ei adroddiad cyntaf (2012) sylw i'r achos dros ddatganoli pwerau trethu a benthyca, yn ogystal â newidiadau cyfansoddiadol perthnasol:
https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20140605075134/http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

### Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol

*Ymgyngoriadau sydd wedi dod i ben, a gynhaliwyd cyn datblygu deddfwriaeth trethi.*

Casglu a rheoli trethi datganoledig, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
https://llyw.cymru/betaconsultations/finance/devolved-taxes/?lang=cy

Y dreth trafodiadau tir, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
https://llyw.cymru/betaconsultations/finance/land-transaction-tax/?lang=cy

Y dreth gwarediadau tirlenwi, gan gynnwys crynodeb o'r ymatebion:
https://llyw.cymru/betaconsultations/finance/landfill-disposals-tax/?lang=cy

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi fframwaith cyfreithiol ar waith ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/6/contents/enacted

Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno treth trafodiadau tir o fis Ebrill 2018 ymlaen, ac yn cynnwys mesurau i fynd i'r afael ag achosion o osgoi trethi datganoledig:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/1/contents

Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer cyflwyno treth gwarediadau tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen:
http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/3/contents/enacted

Fframwaith polisi trethi, cynlluniau gwaith ac adroddiadau Llywodraeth Cymru

Disgrifir dull polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threthi yng Nghymru yn y *Fframwaith Polisi Trethi*, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Mae'r cynlluniau gwaith blynyddol ar gyfer 2017 a 2018, ynghyd ag adroddiadau mis Hydref 2017 a mis Hydref 2018, yn disgrifio'r dadansoddiad, y canfyddiadau a'r casgliadau a amlygir:
https://llyw.cymru/funding/fiscal-reform/tax-policy-framework/?lang=cy

**Llywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig**

Deddf Cymru 2014

Deddfwriaeth y Deyrnas Unedig yn paratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2014/29/contents/enacted

Papur Gorchymyn Bil Cymru 2014

Cafodd rhai agweddau ar y trefniadau ar gyfer datganoli pwerau trethu a benthyca (er enghraifft y dyddiadau targed, mynediad cynnar i fenthyca a'r broses o greu trethi datganoledig newydd) eu hegluro ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Bil Cymru: atebolrwydd a grymuso ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014:
https://www.gov.uk/government/publications/wales-bill

Papur Gorchymyn: Pwerau at bwrpas: Tuag at setliad datganoli sy'n para i Gymru

Roedd y papur hwn, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2015, yn ymrwymo Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno lefel o gyllid waelodol o ran y cyllid cymharol y mae'n ei ddarparu i Lywodraeth Cymru; i ystyried yr achos dros ddatganoli rhagor o bwerau i'r Cynulliad mewn perthynas â'r dreth teithwyr awyr, ynghyd â'r opsiynau ar gyfer gwneud hynny; ac i alluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi bondiau:
https://www.gov.uk/government/publications/powers-for-a-purpose-towards-a-lasting-devolution-settlement-for-wales.cy

Fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru

Mae'r fframwaith hwn, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2016, yn disgrifio'r trefniadau cyllido i gefnogi'r broses o weithredu'r darpariaethau cyllidol yn Neddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017.
https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/cytundeb-ar-fframwaith-cyllidol-llywodraeth-cymru.pdf

Deddf Cymru 2017

Cafodd Deddf Cymru 2017, a oedd yn dileu'r gofyniad am refferendwm ar gyfraddau treth incwm Cymru, ac yn cynyddu'r terfyn benthyca cyfalaf ar gyfer Llywodraeth Cymru, Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017:
http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2017/4/contents/enacted

## Atodiad 4: Acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

| | |
|---|---|
| CThEM | Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi |
| JEC | Gyd-Bwyllgor y Trysorlys ("Joint Exchequer Committee") |
| JEC (O) | Gyd-Bwyllgor y Trysorlys (Swyddogion) ("Joint Exchequer Committee (Officials)") |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 6

# PEDWERYDD ADRODDIAD BLYNYDDOL LLYWODRAETH Y DU AR GYFLWYNO A GWEITHREDU RHAN 2 (CYLLID) O DDEDDF CYMRU 2014

# Y Pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Gyflwyno a Gweithredu Rhan 2 (Cyllid) o Ddeddf Cymru 2014

I’w gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 23(1)(b) o Ddeddf Cymru 2014

I’w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag Adran 23(1)(c) o Ddeddf Cymru 2014

Rhagfyr 2018

OGL

© Hawlfraint y Goron 2018

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3, neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol, Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom i'r cyfeiriad canlynol: correspondence@ukgovwales.gov.uk

Fe’i hargraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## RHAGAIR

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed i ddatganoli'r pwerau benthyca a threthu o dan ran 2 o Ddeddf Cymru 2014.

Mae Deddf Cymru 2014 yn rhoi pwerau newydd arwyddocaol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru, sy'n sicrhau gwir atebolrwydd yn y drefn llywodraethu datganoledig yng Nghymru. Bedair blynedd ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol ac yn dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru i'w rhoi ar waith yn llawn.

Ar ôl datganoli pwerau yn Neddf Cymru 2014, rydym wedi pontio o Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, i'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru o 1 Ebrill ymlaen eleni. Mae'r cydweithio cadarnhaol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ein bod wedi pontio'n ddidrafferth i drethi datganoledig. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i ni gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm Cymru o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen. Mae rhoi'r trethi datganoledig hyn ar waith wedi rhoi mwy o atebolrwydd wrth wraidd setliad datganoli Cymru ac wedi sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn fwy cyfrifol am sut caiff arian ei godi a'i wario yng Nghymru.

Gan adeiladu ar y cytundeb rhwng y ddwy Lywodraeth sy'n darparu fframwaith ariannol i Gymru , cafodd cyfyngiad benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru ei ddyblu yn Neddf Cymru 2017, i £1bn o 2018-19 ymlaen. Hefyd, yn unol â'r hyn a gyhoeddwyd gan Ganghellor y Trysorlys yng Nghyllideb yr Hydref 2018, bydd y Llywodraeth yn adolygu pwerau benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru yn yr Adolygiad o Wariant er mwyn ystyried a ddylid cynyddu'r cap ar fenthyca £300 miliwn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ffordd liniaru newydd ar gyfer yr M4.

Mae'r trethi a'r pwerau benthyca newydd hyn yn rhan bwysig o'r setliad datganoli newydd yng Nghymru ac yn rhoi mwy o rym i Lywodraeth Cymru gefnogi twf economaidd yng Nghymru.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS ALUN CAIRNS AS**
**YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU**

## PENNOD 1

## CYFLWYNIAD

### Cwmpas a Chynnwys yr Adroddiad hwn

1. Hwn yw'r pedwerydd adroddiad ar gyflwyno Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ar 17 Rhagfyr 2014.

2. Mae Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014 yn ymdrin â datganoli pwerau ariannol yn unig. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- creu Cyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru;
- datgymhwyso'r Dreth Dir a Threth Stamp y Deyrnas Unedig yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar drafodiadau tir yng Nghymru;
- datgymhwyso Treth Dirlenwi'r Deyrnas Unedig yng Nghymru, a darparu ar gyfer cyflwyno treth newydd ar waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru;
- darpariaeth i Weinidogion Cymru allu benthyca; a
- grym i greu trethi datganoledig newydd.

3. Bydd y darpariaethau ariannol yn cael eu rhoi ar waith dros nifer o flynyddoedd. Cafodd yr amserlenni ar gyfer datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi eu cynnwys yn y Papur Gorchymyn[1] a gyhoeddwyd gyda Bil Cymru ym mis Mawrth 2014.

4. Er mwyn i'r Senedd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (y "Cynulliad") gael yr holl wybodaeth drwy gydol y broses hon, mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Gweinidogion Cymru yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ynglŷn â rhoi'r rhan hon o'r Ddeddf ar waith. Er mwyn i'r Senedd a'r Cynulliad wybod beth yw barn y ddwy weinyddiaeth:

- mae'n rhaid i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gyflwyno adroddiad i'r Senedd, a rhoi copi o'r adroddiad i Weinidogion Cymru;
- mae'n rhaid i Weinidogion Cymru osod yr adroddiad gerbron y Cynulliad, cyflwyno adroddiad eu hunain i'r Cynulliad, a rhoi copi i'r Ysgrifennydd Gwladol; ac
- mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol osod adroddiad Gweinidogion Cymru gerbron Dau Dŷ'r Senedd.

Bydd y ddwy Lywodraeth yn parhau i gyflwyno adroddiadau nes bydd blwyddyn wedi mynd heibio i'r diwrnod y daeth darpariaethau olaf Rhan 2 i rym.

[1] Cm 8838 *Bil Cymru: Atebolrwydd a Grymuso Ariannol* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/294422/Wales_Bill_Command_Paper_-_Welsh.pdf

5. Yn ôl Adran 23(7) o Ddeddf Cymru 2014, mae'n rhaid i'r adroddiadau blynyddol gynnwys y canlynol:

*(a) datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,*

*(b) datganiad am y camau y dylid eu cymryd gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i gychwyn darpariaethau'r Rhan hon,*

*(c) asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u cychwyn,*

*(d) asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon,*

*(e) effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru), ac*

(f) *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.*

6. Yn Atodiad A rhoddir rhestr fanwl o'r paragraffau yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi sylw i bob un o'r gofynion hyn. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau yn gyfyngedig i'r gofynion hyn, ac fe gânt hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae'r naill Lywodraeth neu'r llall yn credu eu bod yn berthnasol neu'n ddefnyddiol i'r Senedd ac i'r Cynulliad.

**PENNOD 2**

**CYFRADDAU TRETH INCWM CYMRU**

7. Sefydlwyd drwy Ddeddf Cymru 2014 – yn amodol ar ganlyniad refferendwm yng Nghymru ynglŷn â chyflwyno Cyfraddau Treth Incwm i Gymru – y byddai prif gyfraddau treth incwm y DU sy'n berthnasol i incwm nad yw'n deillio o gynilion na difidendau yn cael eu gostwng 10c i drethdalwyr Cymreig, ac y byddai'r Cynulliad yn gallu gosod Cyfraddau Treth Incwm newydd i Gymru bob blwyddyn, a fyddai'n cael eu hychwanegu at gyfraddau gostyngol y DU. Mae gweddill y strwythur treth incwm yn dal yn fater heb ei ddatganoli, ac yn parhau i gael ei bennu gan Senedd y DU.

8. Mae Deddf Cymru 2017 – a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017 – wedi cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm, gan baratoi'r ffordd i gyflwyno Cyfraddau Treth Incwm i Gymru (CTIC) ym mis Ebrill 2019.

9. Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yn gweinyddu CTIC fel rhan o system treth incwm y DU. Mae gan CThEM brofiad o gyflwyno system debyg yn barod gan iddo roi Cyfradd Treth Incwm Yr Alban ar waith yn 2016, a mwy o bwerau treth incwm Yr Alban yn 2017. Mae'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer treth incwm Yr Alban yn sail i'r dull y bydd CThEM yn ei ddefnyddio i roi CTIC ar waith, ond gydag addasiadau i ystyried y sefyllfa benodol yng Nghymru.

10. Mae CThEM wedi ymrwymo i weithio'n adeiladol ac ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy gydol y broses o roi CTIC ar waith a gweinyddu hynny yn y dyfodol. Llywodraeth Cymru sy'n talu costau'r broses o roi CTIC ar waith.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

*Rheoli'r prosiect*

11. Mae CThEM wedi cyflwyno trefniadau rheoli i sicrhau atebolrwydd a goruchwyliaeth effeithiol ar gyfer y broses o roi CTIC ar waith. Caiff Llywodraeth Cymru ei chynrychioli ar bob lefel lywodraethu, sy'n sicrhau ei bod yn gweld y broses weithredu a'r costau cysylltiedig yn llawn, a'i bod yn rhan o benderfyniadau perthnasol. Mae'r trefniadau rheoli yn cynnwys:

- Penodi Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn CThEM yng nghyswllt CTIC, sy'n gyfrifol am weithredu a chasglu CTIC[2];
- Bwrdd Rhaglen o uwch swyddogion i roi trosolwg o holl waith datganoli treth CThEM yng Nghymru;

[2] Mae'r holl fanylion am gyfrifoldebau Swyddogion Cyfrifyddu wedi'u nodi ym Mhennod 3 y ddogfen 'Managing Public Money' gan Drysorlys EM: https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money

- Bwrdd Prosiect i reoli'r gwaith o weithredu CTIC; ac
- is-grwpiau cyfathrebu a risg penodol i reoli'r elfennau hynny o'r prosiect.

12. Bydd CThEM yn cydweithio'n llwyr â Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno CTIC. I hwyluso hyn, fe wnaeth CThEM a Llywodraeth Cymru lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ym mis Tachwedd 2017, sy'n nodi eu cyfrifoldebau o ran sefydlu a gweithredu CTIC yn effeithlon ac yn effeithiol.

*Cyfathrebu*

13. Mae'r Is-grŵp Cyfathrebu yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac y mae wedi cytuno ar strategaeth gyfathrebu sy'n nodi ystod eang o weithgareddau i dargedu cynulleidfaoedd penodol. Mae CThEM a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos i sicrhau bod eu gweithgarwch cyfathrebu yn gydnaws er mwyn gwneud yn siŵr bod negeseuon yn gyson a chytbwys.

14. Ym mis Tachwedd 2018, fe anfonodd CThEM lythyrau at dros 2 filiwn o gwsmeriaid CThEM a oedd yn breswylwyr yng Nghymru. Roedd y llythyr yn rhoi gwybodaeth i'r cwsmeriaid hynny am Gyfraddau Treth Incwm newydd Cymru a pha gamau roedd yn rhaid iddynt eu cymryd. Wedi'i hamgáu â'r llythyr hwn, roedd taflen gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â sut bydd treth incwm Cymru yn ariannu gwasanaethau yng Nghymru yn uniongyrchol. Mae darpariaeth Gymraeg yn ystyriaeth bwysig o ran cyfathrebu ynghylch CTIC ac mae'r llythyr a'r daflen yn ddwyieithog.

15. Ochr yn ochr â hyn, mae CThEM wedi gwneud y canlynol:

   - anfon negeseuon am CTIC at gyflogwyr, swyddogion treth a gweinyddwyr cynlluniau pensiwn drwy ei Fwletin i Gyflogwyr, ei Wybodaeth Ddiweddaraf i Swyddogion a'i Gylchlythyr Pensiynau;

   - cyhoeddi gwybodaeth am CTIC ar GOV.UK ym mis Medi 2018, gan gynnwys canllawiau helaeth ar sut i bennu a ydych chi'n drethdalwr Cymreig, a chyhoeddi tudalen lanio CTIC ym mis Hydref 2018;

   - cynnal cyfarfodydd briffio wyneb yn wyneb gyda sectorau allweddol y diwydiant, fel datblygwyr meddalwedd a grwpiau cyflogwyr a chyflogres;

   - cynnal gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddi briff cyfryngau a briffiau wedi'u hanelu at Seneddwyr Cymru yn benodol[3]; a

[3] Diffiniwyd gan Ddeddf Cymru 2014 fel Aelodau'r Cynulliad ac Aelodau Seneddol dros etholaethau yng Nghymru.

- chyhoeddi ymgynghoriad ar y deddfwriaethau drafft y mae eu hangen i sicrhau bod cyfraddau newydd Cymru yn rhyngweithio ag ardaloedd eraill o'r system treth incwm yn unol â'r bwriad.

16. I ategu hyn, bydd briffiau a gweithgareddau pellach ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer sectorau penodol, fel cyflogwyr, swyddogion, cyrff proffesiynol a mudiadau gwirfoddol.

*Adnabod trethdalwyr Cymreig*

17. Mae mynd ati'n gywir i adnabod trethdalwyr Cymreig yn hollbwysig er mwyn gweithredu CTIC yn effeithiol ac yn gywir. Cytunodd CThEM a Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Adnabod Trethdalwyr Cymreig ym mis Mawrth 2018, sy'n nodi'r holl gamau y dylid eu cymryd i adnabod y trethdalwyr yng Nghymru. Mae CThEM ar y trywydd iawn i adnabod yr holl drethdalwyr Cymreig ar ei systemau mewn pryd i gyflwyno CTIC ym mis Ebrill.

18. Mae CThEM wedi datblygu proses bedwar cam i **adnabod** trethdalwyr Cymreig a **rhoi gwybod iddynt** beth yw eu statws trethdalwr Cymreig, **cychwyn** y cod treth newydd yng Nghymru a **chynnal** cywirdeb poblogaeth trethdalwyr Cymru yn y dyfodol:

    - Adnabod: Caiff trethdalwyr Cymreig eu hadnabod gan ddefnyddio codau post. Mae CThEM wedi cael rhestr lawn a chyfredol o oddeutu 138,000 cod post gan yr Arolwg Ordnans ac y mae wedi defnyddio hwn i echdynnu cofnodion gyda chyfeiriad yng Nghymru o'i systemau;

    - Rhoi gwybod: Ym mis Tachwedd 2017, fe anfonodd CThEM lythyrau at dros 2 filiwn o gwsmeriaid CThEM y nodwyd eu bod yn breswylwyr yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pobl a oedd yn ennill llai o arian na'r trothwy talu treth;

    - Gweithredu: Bydd CThEM yn rhoi cod treth Talu wrth Ennill (PAYE) newydd i drethdalwyr cyflogedig yng Nghymru, a fydd yn dechrau â'r llythyren "C". Bydd y codau treth hyn yn cael eu creu yn ystod ymarfer codio blynyddol CThEM, sy'n dechrau ym mis Rhagfyr 2018, a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2019;

    - Cynnal: Ni fydd poblogaeth trethdalwyr Cymru yn sefydlog. Mae pobl yn symud i ac o Gymru ac mae pobl yn dod yn drethdalwyr neu'n peidio â bod yn drethdalwyr am amryw o resymau. Bydd yn rhaid cymryd nifer o gamau i sicrhau bod poblogaeth trethdalwyr Cymru yn parhau i fod yn gywir. Bydd CThEM yn cytuno ar ei strategaeth sicrwydd barhaus ac yn ei phennu mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru.

*TG*

19. Mae CThEM wedi datblygu rhaglen TG a fydd yn rhoi'r newidiadau sy'n angenrheidiol i weinyddu CTIC ar waith. Mae cynllun cyflenwi TG ar waith a chanddo dri phrif gam cyflenwi; cafodd y cyntaf o'r rheini ei gwblhau ym mis Tachwedd 2018. Mae'r ddarpariaeth hon yn diwygio prosesau a systemau TG i adnabod trethdalwyr Cymreig, dyrannu codau treth "C" a gweinyddu Cyfraddau Treth Incwm Cymru, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno gan y Cynulliad.

*Costau*

20. Yn ôl amcangyfrifon CThEM, bydd y broses o roi CTIC ar waith yn costio rhwng £7.5 miliwn a £9.5 miliwn i gyd. Mae'r amcangyfrifiad presennol hwn wedi'i fireinio i fod yn fwy manwl na'r amcangyfrifiad gwreiddiol o £5-£10 miliwn, a oedd yn seiliedig ar y profiad o weithredu Cyfradd Treth Incwm Yr Alban.

21. Mae CThEM yn hyderus y bydd CTIC yn cael ei ddarparu o fewn yr ystod honno. Wrth i elfennau terfynol y costau ddod yn fwy eglur a chael eu mireinio ymhellach, bydd CThEM yn rhoi'r holl wybodaeth gyfredol i Lywodraeth Cymru.

22. Hyd at 14 Rhagfyr 2018, mae CThEM wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £525,770 i roi CTIC ar waith.

*Lles*

23. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cwblhau'r camau angenrheidiol i sicrhau bod buddion trethadwy wedi'u gweinyddu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r systemau TG cysylltiedig, yn adnabod CTIC ac yn rhyngweithio â nhw o'r flwyddyn dreth sy'n dechrau fis Ebrill 2019 ymlaen.

24. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru hefyd wedi dod i gytundeb ynglŷn ag ad-dalu costau hanfodol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Cafodd y trefniadau sy'n mynd i'r afael â'r cytundeb hwn eu cyhoeddi ar GOV.UK ac (yn ddwyieithog) ar wefan Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2018.

**Camau i'w cymryd yn 2019 i roi hyn ar waith**

25. Cafodd llawer o'r gwaith angenrheidiol i roi CTIC ar waith ei wneud yn 2018. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud yn 2019 er mwyn sicrhau bod CTIC yn cael ei weithredu mewn modd effeithlon a didrafferth. Yn benodol, mae natur Hunanasesu yn golygu y bydd newidiadau i rai systemau yn cael eu cyflawni ym mlwyddyn dreth 2019/20.

26. Bydd ail gam y cynllun cyflawni TG yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2019. Bydd hyn yn golygu bod newidiadau i wasanaethau ar-lein CThEM yn cael eu rhoi ar waith, yn ogystal â gofynion o ran cyfrifon ariannol.

27. Hefyd, bydd CThEM yn mireinio amcangyfrifon ar gyfer costau rhedeg TG parhaus CTIC ac fe fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn yn yr adroddiad nesaf.

28. Bydd adnabod trethdalwyr Cymreig yn her barhaus yn hytrach na gweithgaredd untro. Bydd CThEM yn cytuno ar ei strategaeth sicrwydd barhaus ac yn ei phennu mewn trafodaeth â Llywodraeth Cymru. Bydd y gweithgarwch y cytunwyd arno ar gyfer y strategaeth sicrwydd yn helpu CThEM i ategu llawer o'i gofnodion a datblygu lefel uwch fyth o hyder yng nghywirdeb y boblogaeth a nodir.

29. Yn gefn i'r holl waith gweithredu uchod bydd rhaglen gyfathrebu gyson a chydlynol, a luniwyd ar y cyd â Llywodraeth Cymru, a fydd yn targedu cynulleidfaoedd allweddol – fel cyflogwyr, asiantau, datblygwyr meddalwedd a threthdalwyr unigol. Bydd CThEM yn defnyddio amryw o ddulliau cyfathrebu mewnol i roi gwybod i'w staff am y newidiadau a ddaw yn sgil CTIC, a'i effeithiau ar fusnes CThEM.

## PENNOD 3

## Y DRETH TRAFODIADAU TIR A'R DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI YNG NGHYMRU

### Cyflwyniad

30. Mae Deddf Cymru 2014 yn darparu ar gyfer datganoli'r pŵer i drethu trafodiadau tir a gwaredu mewn safleoedd tirlenwi yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, ac ar gyfer datgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru.

31. Yn ystod haf 2017, cafodd Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) eu pasio gan y Cynulliad. Roedd y rhain yn paratoi'r ffordd ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Ers yr adeg honno, nid yw trethi'r Deyrnas Unedig wedi bod yn berthnasol yng Nghymru, a chafodd grant bloc Cymru ei addasu i adlewyrchu hynny.

32. Caiff y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi eu gweinyddu gan Awdurdod Cyllid Cymru ('ACC'), sef adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru a sefydlwyd ym mis Hydref 2017.

33. Sefydlwyd prosiect ar y cyd gan CThEM a Llywodraeth Cymru yn 2016 i reoli'r broses o ddatgymhwyso Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi, a newid i ddefnyddio'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru. Roedd Bwrdd y Prosiect ar y Cyd yn cynnwys cynrychiolwyr o CThEM a Llywodraeth Cymru (ACC ers mis Hydref 2017). Roedd aelodau'r Bwrdd yn rhan o'r gwaith o wneud penderfyniadau i sicrhau bod y prosiect yn cynnig atebion effeithiol a gwerth am arian. Roedd CThEM yn cael ei gynrychioli ar Fwrdd Prosiect Cyflawni a Pholisi Gweithredol Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn hynny'n galluogi CThEM a Llywodraeth Cymru i gadw golwg ar y penderfyniadau allweddol, ac yn cynnig dull cydlynol a chydweithredol o gyflawni'r prosiect.

34. Bu CThEM a Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ar faterion cyfreithiol, gweithredol a llunio trethi er mwyn sicrhau bod y newid i'r trethi datganoledig yn digwydd yn ddidrafferth. I hwyluso hyn, mae CThEM a Llywodraeth Cymru wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y Dreth Trafodiadau Tir a datgelu gwybodaeth yn 2016.

35. Mae Llywodraeth Cymru yn talu costau CThEM sy'n gysylltiedig â'r gwaith o ddod â Threth Dir y Dreth Stamp i ben yng Nghymru. Gan mai dim ond ar nifer fach o weithredwyr y Dreth Dirlenwi y caiff y newidiadau effaith, ac mai dim ond ychydig o newidiadau sydd angen eu gwneud i systemau CThEM, cytunodd CThEM na fyddai unrhyw gostau cysylltiedig â datgymhwyso'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

36. Bydd yr arbedion a ddaw yn sgil rhoi'r gorau i weinyddu'r trethi hyn yng Nghymru yn cael eu trosglwyddo gan CThEM i Lywodraeth Cymru. Mae'r ddau awdurdod wedi cytuno ar hyn – £115,565 y flwyddyn ar gyfer datganoli Treth Dir y Dreth Stamp a £56,908 y flwyddyn ar gyfer datganoli'r Dreth Dirlenwi.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

*Rheoli'r prosiect*

37. Cafodd y prosiect ar y cyd ei oruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen Datganoli Treth yng Nghymru a'r Bwrdd Prosiect sydd wrth wraidd hwnnw, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o CThEM ac ACC. O dan oruchwyliaeth Bwrdd y Rhaglen a Bwrdd y Prosiect, cafodd trethiant trafodiadau tir a gwarediadau i safleoedd tirlenwi eu datganoli i Gymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

*Cyfathrebu*

38. Fe wnaeth y Grŵp Cyfathrebu ar y Cyd ("JCOMM"), a sefydlwyd yn 2017 i ddatblygu dull cydweithredol rhwng CThEM a Llywodraeth Cymru o ran cyfleu'r newidiadau yng nghyswllt treth, oruchwylio amryw o weithgareddau cyfathrebu yn y cyfnod yn arwain at gyflwyno'r trethi datganoledig ym mis Ebrill 2018.

39. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gydag amryw o randdeiliaid allanol ar ddatblygu canllawiau ar y cyd yn egluro'r trefniadau pontio rhwng y trethi, diweddaru GOV.UK a rhoi gwybod i randdeiliaid allweddol cyn y dyddiad pontio.

*TG*

40. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith TG wedi'i gwblhau erbyn hyn. Y ddau brif faes gwaith a ddarparwyd oedd:

- dilysrwydd i sicrhau bod systemau CThEM a Threth Dir y Dreth Stamp ddim yn derbyn ffurflenni ar gyfer trafodiadau yng Nghymru (nodir hyn yn y cod Awdurdodau Lleol); a
- gwasanaeth trosglwyddo ffeiliau i sicrhau bod systemau CThEM yn gallu derbyn y data ynghylch trafodiadau tir Cymru at ddibenion ystadegau, prisio a chydymffurfio.

*Costau*

41. Mae CThEM yn amcangyfrif y bydd y broses o newid i'r Dreth Trafodiadau Tir yng Nghymru yn costio rhwng £1.75 miliwn a £2 filiwn i gyd. Mae hyn yn fwy na'r amcangyfrif gwreiddiol a drafodwyd â Llywodraeth Cymru - sef £1 miliwn - a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau i system Technoleg

Gwybodaeth CThEM, a phrosesau a systemau seiberddiogelwch sy'n mynd yn fwy ac yn fwy soffistigedig.

42. Mae CThEM yn dal yn hyderus y bydd yn datganoli'r dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau i safleoedd tirlenwi o fewn y terfyn uchaf o £2m. Mae'n amcangyfrif y bydd y gwaith wedi'i gwblhau erbyn mis Ionawr 2019.

43. Hyd at 14 Rhagfyr 2018, mae CThEM wedi anfonebu Llywodraeth Cymru am £1,490,759 ar gyfer y broses o newid i'r Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd yn 2019 i roi hyn ar waith**

44. Daeth y broses o newid y rhan fwyaf o weithrediadau mewn perthynas â'r trethi datganoledig i rym ar 1 Ebrill 2018.

45. Bydd cam olaf y gwaith cyflawni TG yn cael ei gwblhau fis Ionawr 2019. Bydd hyn yn rhoi ffordd o drosglwyddo data'r Dreth Trafodiadau Tir o ACC i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Gan mai hon yw elfen olaf y prosiect, bydd CThEM yn cau'r prosiect pan fydd y gwaith TG yn cael ei gwblhau, a bydd ACC yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros reoli'r trethi datganoledig hyn.

46. Bydd CThEM yn parhau i weithio gydag ACC i fireinio'r cytundeb rhannu gwybodaeth a datblygu'r dull cydweithredol o gydymffurfio yng nghyswllt y trethi datganoledig er mwyn galluogi cydweithrediad parhaus.

**PENNOD 4**

**PWERAU BENTHYCA**

47. Mae darpariaethau Deddf Cymru 2014 yn galluogi Gweinidogion Cymru i fenthyca arian at y dibenion canlynol o fis Ebrill 2018 ymlaen:

- Yn y Ddeddf mae pwerau benthyca cyfredol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn yn cael eu cadw ar y lefel bresennol, sef hyd at £500m. Gall Gweinidogion Cymru fenthyca o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru er mwyn darparu balans gweithio ar gyfer Cronfa Gyfunol Cymru, neu er mwyn rheoli natur gyfnewidiol derbyniadau o fewn blwyddyn (lle bydd yr incwm gwirioneddol yn wahanol i'r derbyniadau a ragwelwyd ar gyfer y mis hwnnw);
- Mae'r Ddeddf yn ehangu'r amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau cyfredol. Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i fenthyca arian ar draws blynyddoedd er mwyn ymdopi â gwahaniaethau rhwng y rhagamcanion blwyddyn gyfan a'r derbyniadau alldro drwy drethi sydd wedi'u datganoli. Unwaith eto, rhaid i'r benthyca hwn ar draws blynyddoedd ddod o'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol drwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gall fod hyd at £200m bob blwyddyn (o fewn cyfanswm y cap presennol, sef £500m) a rhaid ei ad-dalu o fewn 4 blynedd;
- Mae darpariaeth yn y Ddeddf sy'n golygu y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £500m i ariannu buddsoddiad cyfalaf. Gall yr arian hwn gael ei fenthyca gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol neu gan fanciau masnachol. O fewn y terfyn cyffredinol, mae Trysorlys EM wedi cytuno y gall Llywodraeth Cymru fenthyca hyd at £125 miliwn y flwyddyn (o fis Ebrill 2018 ymlaen). Gallai hefyd ddefnyddio'r pwerau benthyca er mwyn bwrw ymlaen â gwelliannau i'r M4 (os yw'n dewis gwneud hynny). Rhaid i'r symiau y gall Llywodraeth Cymru eu benthyca ar gyfer y diben hwn cyn 2018-19 gael eu cymeradwyo gan Drysorlys EM.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

48. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cytuno ar ragor o fanylion ynghylch pwerau benthyca Llywodraeth Cymru yn ei fframwaith cyllidol[4], a gytunwyd ym mis Rhagfyr 2016.

49. Mae cytundeb y fframwaith cyllidol yn nodi'r canlynol:

- O 2018-19 ymlaen, bydd terfyn benthyca cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru yn cynyddu i £1bn, yn hytrach na'r £500m mae

[4] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578836/Wales_Fiscal_Framework_Agreement_Dec_2016_2.pdf

Deddf Cymru 2014 yn darparu ar ei gyfer. Bydd terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cynyddu i £150m o 2019-20 ymlaen;

- Gall Llywodraeth Cymru fenthyca arian ar gyfer gwariant cyfalaf gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol neu drwy fenthyciad masnachol – ac yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar Ddydd Gŵyl Dewi, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu dyroddi bondiau; a
- Bydd pwerau benthyca adnoddau Llywodraeth Cymru yn aros fel y maent yn Neddf Cymru 2014, ac mae Llywodraeth Cymru nawr yn gallu defnyddio adnoddau ychwanegol i reoli'r gyllideb yn sgil Cronfa Wrth Gefn newydd i Gymru o fis Ebrill 2018 ymlaen (darllenwch 'Gweithgareddau eraill i roi hyn ar waith' ym mhennod 7).

50. Mae Llywodraeth y DU wedi deddfu yn Neddf Cymru 2017 y bydd yn cynyddu terfyn benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru i £1bn; mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wrthi'n cael ei gwblhau.

51. Yng Nghyllideb yr Hydref 2018, fe gyhoeddodd llywodraeth y DU adolygiad o bwerau benthyca Llywodraeth Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o ddarparu gwelliannau i'r M4, a allai gynyddu'r cap ar fenthyca cyfalaf oddeutu £300m.

52. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud Gorchymyn dan adran 121(1A) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddiwygio 121(1A) o'r ddeddf honno er mwyn nodi y gall Gweinidogion Cymru gyflwyno bondiau, yn ogystal â benthyca drwy fenthyciad.  Daeth y pwerau hyn i rym ar 1 Rhagfyr 2018.

**PENNOD 5**

**PŴER I GREU TRETHI NEWYDD**

53. Gyda chytundeb y ddwy lywodraeth, gellir datganoli rhagor o drethi sy'n bodoli eisoes drwy is-ddeddfwriaeth, a gellir rhoi pwerau i'r Cynulliad gyflwyno trethi newydd sy'n benodol i Gymru. Mae'r pwerau hyn yn cynnig ffordd i'r Cynulliad sicrhau canlyniadau polisi, yn ogystal â sicrhau refeniw ychwanegol o bosib. Mae'r Papur Gorchymyn a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Bil Cymru yn 2013 yn cynnwys manylion pellach ynglŷn â'r cynigion treth newydd.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

54. Ym mis Ionawr 2016, fe gytunodd Gweinidogion Llywodraeth Cymru ar broses i asesu unrhyw gynigion gan Lywodraeth Cymru i gael trethi newydd penodol i Gymru. Caiff y broses o roi pwerau treth newydd i'r Cynulliad ei llywodraethu gan Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (JEC)[5] a'i rheoli gan y grŵp sy'n ei chefnogi (JEC(O)):

1. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Weinidogion Trysorlys Ei Mawrhydi am unrhyw fwriad i ofyn am bwerau treth newydd i'r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys ymryson ar lefel swyddogol, cyn cynnal trafodaethau Gweinidogol drwy'r Cyd-bwyllgor;
2. Mae Llywodraeth Cymru yn llunio cynnig i'w drafod gyda JEC(O) / JEC lle y bo hynny'n briodol: Mae swyddogion yn nodi beth sydd ei angen i gefnogi'r cynnig ac yn cytuno ar raglen waith (gan gynnwys amserlen). Bydd hyn yn cynnwys Gorchymyn drafft a thystiolaeth i ganiatáu i'r cynigion gael eu hasesu (gweler cam 6);
3. Bydd y gwaith y cytunwyd arno yn cael ei gynnal;
4. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud cais ffurfiol am bwerau treth newydd i Lywodraeth y DU (gan gynnwys y Gorchymyn drafft a'r dystiolaeth/data ategol);
5. Bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch y cynnig i roi'r pŵer treth newydd arfaethedig i'r Cynulliad, yn unol â phroses llunio polisïau treth y DU. Er na fyddai angen dilyn cylchred treth y DU, byddai'n gyfleus cyhoeddi'r ymgynghoriad ar ddatganoli pwerau mewn Cyllideb a chadarnhau penderfyniad ynglŷn ag a ddylid gwneud hynny neu beidio yn y Gyllideb ganlynol;
6. Bydd Llywodraeth y DU yn asesu'r cynnig a'r dystiolaeth. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon ar gael ym Mhapur Gorchymyn Bil Cymru;

---

[5] Mae Cyd-bwyllgor y Trysorlysoedd (JEC) yn fforwm weinidogol rhynglywodraethol ar gyfer Gweinidogion Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU ar gyfer goruchwylio'r broses o drosglwyddo pwerau ariannol. Fe wnaeth y Cyd-bwyllgor gyfarfod am y tro cyntaf ar 20 Hydref 2014.

7. Caiff y cynnig ei addasu / diwygio, a chaiff tystiolaeth ychwanegol ei darparu yn ôl yr angen. Dilynir hyn gan drafodaeth JEC (O) / JEC cyn y deuir i gytundeb Gweinidogol ffurfiol;
8. Caiff y Gorchymyn Drafft ei roi gerbron pob Tŷ'r Cyffredin, a’r Cynulliad, i gytuno arno drwy benderfyniad cadarnhaol. Wedyn, gwneir Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan CThEM; ac
9. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei phwerau newydd yn unol â’i phrosesau arferol ar gyfer llunio polisi, deddfwriaethau a gweithredu.

55. Fe roddodd Llywodraeth Cymru wybod i’r Cynulliad ei bod yn bwriadu cynnig Treth ar Dir Gwag ym mis Chwefror 2018 ac fe ysgrifennodd at Weinidogion y Trysorlys ym mis Mawrth 2018 i roi gwybod i Lywodraeth y DU am fwriad Llywodraeth Cymru i ddechrau proses Deddf Cymru 2014 yn ffurfiol.

**PENNOD 6**

**EFFAITH PWERAU NEWYDD AR GRANT BLOC CYMRU**

56. Un o egwyddorion sylfaenol datganoli trethi yw bod elfen o'r grant bloc yn cael ei chyfnewid am y gallu i godi trethi. Ym mis Rhagfyr 2016, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar fframwaith cyllidol i lywio trefniadau cyllido newydd Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys addasiadau i'r grant bloc ar gyfer datganoli trethi, a'u perthynas â fformiwla Barnett a chyllid gwaelodol Llywodraeth Cymru.

57. Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer y trefniadau canlynol i gyllido'r grant bloc:

- ers mis Ebrill 2018 mae ffactor seiliedig ar anghenion wedi cael ei gynnwys yn fformiwla Barnett i bennu newidiadau yng nghyllid grant bloc Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datganoli gwariant.
- mae'r ffactor seiliedig ar anghenion hwn wedi'i osod ar 115%, ar sail yr amrediad sydd wedi'i awgrymu gan Gomisiwn Holtham a'r cyllid gwaelodol a osodwyd yn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2015.
- er bod cyllid cymharol y pen Llywodraeth Cymru yn parhau'n uwch na 115%, mae ffactor trosiannol o 105% yn cael ei ddefnyddio;
- mae'r newidiadau yng nghyllid y grant bloc o ran datganoli trethi yn cael eu pennu drwy'r model Cymaradwy;
- mae'r system ar gyfer addasu'r grant bloc yn cynnwys didyniad sylfaenol cychwynnol i adlewyrchu'r refeniw trethi y mae Llywodraeth y DU wedi'i hepgor ar bwynt datganoli'r dreth; a mynegeio dilynol drwy'r model Cymaradwy, yn seiliedig ar newidiadau i refeniw trethi cyfatebol Llywodraeth y DU;
- mae'r model Cymaradwy wedi cael ei roi ar waith ar gyfer Treth Dir y Dreth Stamp, y Dreth Dirlenwi a'r holl fandiau Treth Incwm.

58. Mae'r fframwaith cyllidol hefyd yn rhoi sylw i drin effeithiau goferu (spillover), lle mae penderfyniad polisi un llywodraeth yn effeithio ar dreth neu wariant y llywodraeth arall. Cytunwyd yn y fframwaith y byddai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU:

- yn rhoi cyfrif am yr holl effeithiau uniongyrchol, naill ai drwy addasu'r grant bloc neu ar wahân ar ôl iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r rhain yn effeithiau ariannol a fydd yn digwydd yn uniongyrchol ac yn fecanyddol o ganlyniad i benderfyniad polisi un llywodraeth, cyn unrhyw newid cysylltiedig mewn ymddygiad;
- yn rhoi cyfrif am effeithiau ymddygiad mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, lle mae'r effeithiau'n sylweddol ac yn gallu cael eu profi, a'r ddwy lywodraeth yn cytuno ei bod yn briodol gwneud hynny. Mae'r rhain yn effeithiau ariannol sy'n deillio o newid yn ymddygiad pobl yn dilyn penderfyniad polisi; ac

- yn peidio â rhoi cyfrif am effeithiau ail gylch. Mae'r rhain yn effeithiau economaidd ehangach sy'n gallu deillio'n fwy anuniongyrchol o benderfyniadau polisi.

**Camau a gymerwyd i roi hyn ar waith**

59. Fe wnaeth llywodraeth y DU addasiadau ar gyfer datganoli treth i grant bloc Llywodraeth Cymru yng Nghyllideb yr Hydref 2018, gan ddefnyddio'r trefniadau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yn y fframwaith cyllidol. Cyfeirir at hen Dreth y DU, os cyfeirir at y dreth ddatganoledig newydd. Yr un fath yn y tabl.

60. Roedd hyn yn cynnwys addasiadau ar gyfer y Dreth Dirlenwi, Treth Dir y Dreth Stamp a Chyfraddau Treth Incwm Cymru. Gwnaethpwyd ychwanegiadau pellach i'r ffactor seiliedig ar anghenion yn fformiwla Barnett mewn perthynas â phenderfyniadau gwario o 2018-19 ymlaen.

61. Fe arweiniodd addasiadau treth at wneud y newidiadau canlynol i grant bloc Cymru:

| **£m nominal** | **2018-19** | **2019-20** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm y didyniadau ar gyfer Treth** | **268** | **2,334** |
| *nifer sy'n dod o dan y categori:* | | |
| *SDLT* | *242* | *252* |
| *LfT* | *27* | *23* |
| *Cyfraddau Treth Incwm Cymru* | - | *2,059* |
| *Nifer sy'n dod o dan y categori:* | | |
| *Cyfradd Sylfaenol treth incwm* | - | *1,778* |
| *Cyfradd Uwch Treth Incwm* | - | *237* |
| *Cyfradd Ychwanegol Treth Incwm* | - | *44* |

*Tabl 1: Addasiadau i grant bloc Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ffigurau dangosol ar gyfer 2019-20.*

62. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno, pe bai Llywodraeth Cymru yn pennu'r tair cyfradd Treth Incwm i gyd-fynd â gweddill y DU, na fyddai addasu Cyfraddau Treth Incwm Cymru yn cael effaith ar rym gwario Llywodraeth Cymru yn 2019-20.

63. Bydd defnyddio’r ffactor seiliedig ar anghenion yn fformiwla canlyniadol Barnett ar gyfer Cyllideb hydref 2018 yn arwain at ychwanegu’r canlynol at grant bloc Llywodraeth Cymru:

| **£m** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** |
|---|---|---|---|
| Terfynau Gwariant Adrannol – Adnoddau | 2.6 | 20.2 | - |
| Terfynau Gwariant Adrannol – Cyfalaf | 2.5 | 0.1 | 0.2 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0.0 | 0.0 | 0.4 |
| **Cyfanswm yr ychwanegiadau yn sgil y ffactor seiliedig ar anghenion yn fformiwla Barnett** | **5.1** | **20.3** | **0.6** |

*Tabl 2: Ychwanegiadau at grant bloc Llywodraeth Cymru yn sgil y ffactor seiliedig ar anghenion yn fformiwla canlyniadol Barnett ar gyfer Cyllideb hydref 2018.*

## PENNOD 7

## GWEITHGAREDDAU ERAILL I ROI HYN AR WAITH

### Cronfa Wrth Gefn Cymru

64. Roedd y Papur Gorchymyn (troednodyn 1) yn dweud y bydd Llywodraeth y DU yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru dalu'r cyllid sydd dros ben i gronfa arian parod, i'w helpu i reoli natur gyfnewidiol ei chyllideb yn sgil ei phwerau trethu newydd.

65. Mae fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru yn nodi rhagor o fanylion ar gyfer Cronfa Wrth Gefn newydd i Gymru, a fydd yn cyfuno ei chronfa arian parod a'i gallu i ddefnyddio'r cyfleuster Cyfnewid Cyllidebau.

66. Daeth Cronfa Wrth Gefn Cymru yn weithredol ochr yn ochr â'r broses o ddatganoli Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi ym mis Ebrill 2018. Ni fydd dim terfyn blynyddol ar daliadau i Gronfa Wrth Gefn Cymru, a fydd yn gallu dal hyd at £350m gyda'i gilydd. Bydd gan Lywodraeth Cymru derfyn blynyddol ar gyfer tynnu arian i lawr o'r Gronfa Wrth Gefn, sef £125 miliwn ar gyfer adnoddau a £50 miliwn ar gyfer cyfalaf.

67. Nid yw'r cyfanswm a ddelir yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn cynnwys y £90 miliwn o Gyfalaf Trosglwyddiadau Ariannol a ddyrannwyd yng Nghyllideb yr Hydref 2017 ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi cytuno y gellir cario'r dyraniad ymlaen i 2019-20 y tu allan i'r broses wrth gefn arferol.

| £m | Tachwedd 2018 |
|---|---|
| Adnoddau | 271.0 |
| Cyfalaf heb gynnwys Trafodiadau Ariannol | 53.6 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 0.9 |
| **Cyfanswm y Gronfa Wrth Gefn** | **325.6** |

*Tabl 3: Cyfanswm Cronfa Wrth Gefn Cymru*

**PENNOD 8**

**GOFYNION ADRODD ERAILL**

68. Yn ogystal â'r elfennau a drafodwyd yn y penodau blaenorol (camau a gymerwyd i roi hyn ar waith, camau sydd eto i'w cymryd, ac effaith y darpariaethau ar y grant bloc), mae adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu bod adroddiadau blynyddol ar Ran 2 o'r Ddeddf yn cynnwys y canlynol:

- asesiad o’r broses o weithredu darpariaethau Rhan 2 sydd wedi'u rhoi ar waith;
- asesiad o’r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi’u cynnwys neu eu diwygio gan Ran 2;
- datganiad am effaith Rhan 2 ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac
- unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.

69. Dyma’r pedwerydd adroddiad ers i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Rhagfyr 2014. Dylid nodi fod holl ddarpariaethau Rhan 2 – yn unol ag adran 29(2)(b) o'r Ddeddf – wedi dod i rym ddau fis ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, ac eithrio'r adrannau sy'n berthnasol i CTIC a benthyca gan Weinidogion Cymru.

70. Roedd Adran 17 o Ddeddf Cymru 2017 yn cael gwared ar y gofyniad i gynnal refferendwm cyn rhoi CTIC ar waith. Daeth yr adran hon i rym ddau fis ar ôl i’r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, ar 31 Mawrth 2017. Bydd y Trysorlys yn cyflwyno Gorchymyn i roi CTIC ar waith o 2019-20 ymlaen.

71. Fe gyflwynodd Trysorlys Ei Mawrhydi reoliadau a ddaeth ag adran 20 (Gweinidogion Cymru yn benthyca) i rym o 1 Ionawr 2017 ymlaen. Roedd Adran 18 o Ddeddf Cymru 2017 yn diwygio adran 122A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i ddyblu cap benthyca cyfalaf Llywodraeth Cymru o £500 miliwn i £1 biliwn. Daeth yr adran hon hefyd i rym ar 31 Mawrth 2017.

72. Fel y nodwyd yn y fframwaith cyllidol, bydd y terfyn blynyddol ar wariant cyfalaf hefyd yn cynyddu. Ochr yn ochr â chyflwyno CTIC, bydd y terfyn blynyddol yn cael ei osod ar 15% o’r cap cyffredinol ar fenthyca, sy’n cyfateb i £150 miliwn y flwyddyn.

**CASGLIAD**

73. Mae Adran 23 o Ddeddf Cymru 2014 yn mynnu y dylai'r Adroddiad Blynyddol ar gyflwyno a gweithredu Rhan 2 o'r Ddeddf honno gael ei osod gerbron flwyddyn i'r dyddiad y cafodd Gydsyniad Brenhinol (17 Rhagfyr 2014), neu cyn hynny.

74. Gwelwyd mwy o gynnydd eleni i roi Deddf Cymru 2014 ar waith yn llawn. Mae llywodraeth y DU wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol ar waith er mwyn rheoli'r broses o drosglwyddo'r trethi datganoledig wrth i Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi gael eu disodli gan y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

75. Mae tynnu'r refferendwm ar dreth incwm a chytuno ar addasiadau priodol i'r grant bloc wedi galluogi Cyfraddau Treth Incwm Cymru i gael eu datganoli o 2019-20 ymlaen ac eleni mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cymryd camau sylweddol i sicrhau bod CTIC yn cael ei gyflwyno mewn modd effeithlon a didrafferth o fis Ebrill y flwyddyn nesaf ymlaen.

76. Mae'r fframwaith cyllidol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn dweud sut bydd grant bloc Llywodraeth Cymru yn cael ei addasu i ystyried datganoli trethi. Hefyd, roedd Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer pwerau trethu a benthyca Llywodraeth Cymru.

77. Cyhoeddir yr adroddiad blynyddol nesaf ar gyflwyno Rhan 2 o Ddeddf Cymru 2014, yn unol ag Adran 23(3)(b) o'r Ddeddf, cyn 17 Rhagfyr 2019.

**Atodiad A – Gofynion Adrodd yn Neddf Cymru 2014, a ble maent yn cael sylw yn yr adroddiad hwn**

1. *datganiad am y camau sydd wedi'u cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, ers gwneud yr adroddiad blaenorol (neu, yn achos yr adroddiad cyntaf, ers pasio'r Ddeddf hon) i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith,*

   Pennod 2: Paragraffau 11-24
   Pennod 3: Paragraffau 37-43
   Pennod 4: Paragraffau 48-51
   Pennod 5: Paragraffau 53 a 54
   Pennod 6: Paragraffau 58-62

2. *datganiad am y camau y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn cynnig y dylid eu cymryd, boed gan y sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad neu gan eraill, i roi darpariaethau'r Rhan hon ar waith,*

   Pennod 2: Paragraffau 25-29
   Pennod 3: Paragraffau 44-46

3. *asesiad o'r broses o weithredu darpariaethau'r Rhan hon sydd wedi'u rhoi ar waith;*

   Pennod 8

4. *asesiad o'r broses o weithredu unrhyw bwerau eraill i ddatganoli trethi i'r Cynulliad neu i newid pwerau Gweinidogion Cymru i fenthyca arian, ac unrhyw newidiadau eraill sy'n effeithio ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys neu eu diwygio gan y Rhan hon,*

   Pennod 8

5. *datganiad am effaith y Rhan hon ar swm unrhyw daliadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 118 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru); ac*

   Pennod 8

6. *unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i ffynonellau refeniw ar gyfer Llywodraeth Cymru y mae'r sawl sydd wedi gwneud yr adroddiad yn ystyried y dylid tynnu sylw'r Senedd neu'r Cynulliad atynt.*

   Pennod 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

2il Cyllideb Atodol

Memorandwm Esboniadol i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid

## Cefndir

Cynhwyswyd cyllideb 2018-19 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y Symudiad Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26, a osodwyd ar 19 Rhagfyr 2017 a'i ddiwygio yn y Gyllideb Atodol Gyntaf yn Ebrill 2018. Gofynnir am symud arian rhwng refeniw a chyfalaf fel a ganlyn:

## Cyfalaf

### Caledwedd

Mae'r angen am fuddsoddiad mewn uwchraddio isadeiledd TG, gan gynnwys gweinyddion a storfa wrth gefn/ datrysiadau adferiad, wedi'i amlygu'n flaenorol i'r Pwyllgor Cyllid. Bydd y Buddsoddiad hwn yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chynhwysedd gweinydd cyfredol OGCC sy'n nesáu, a'r diffyg datrysiad adferiad TG gyflawn sy'n effeithlon a sydyn.

### Meddalwedd

Bydd gwelliant sylweddol i system rheoli achosion OGCC yn cael ei gyflawni erbyn Mawrth 2019 sy'n gwella ymarferoldeb ac adrodd.

Ni ofynnir am unrhyw arian ychwanegol, ond throsglwyddiadau adnoddau ac arian o Refeniw i Gyfalaf DEL .

| 2nd Cyllideb Atodol 2018-19 | Adnodd | Arian |
|---|---|---|
| | £000s | £000s |
| Cyfalaf DEL | 204 | 204 |
| | | |
| Refeniw DEL | -204 | -204 |
| | | |
| **Adnodd net/gofynion arian parod** | - | - |

## Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| Cyllideb Atodol 2018/19 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2018/19 | 2il Cyllideb Atodol 2018/19 | Newid |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | |
| **Cyfalaf DEL** | 25 | 229 | 204 |
| **Refeniw Cyllidol DEL** | | | |
| Cyflogau a chostau cysylltiedig | 3,152 | 3,190 | 38 |
| Adeilad | 435 | 375 | -60 |
| Systemau cyfrifiadurol a chefnogaeth | 225 | 160 | -65 |
| Costau swyddfa | 130 | 110 | -20 |
| Costau cynghori a chyfreithiol | 300 | 248 | -52 |
| Cyfathrebu | 70 | 40 | -30 |
| Hyfforddiant a recriwtio | 55 | 40 | -15 |
| Teithio a chynhaliaeth | 40 | 40 | 0 |
| Costau archwilio | 20 | 20 | 0 |
| **Isgyfanswm** | **4,427** | **4,223** | **-204** |
| Incwm | -62 | -62 | 0 |
| **Cyfanswm Refeniw Cyllidol DEL** | **4,365** | **4,161** | **-204** |
| **DEL nad yw'n Arian** | | | |
| Dibrisiant | 70 | 70 | 0 |
| **Refeniw DEL** (B+C) | **4,435** | **4,231** | **-204** |
| **Cyfanswm DEL** (A+B+C) | **4,460** | **4,460** | **0** |
| **Gwariant a Reolir yn flynyddol (AME)** | | | |
| Symudiad ar LGPS | 0 | 0 | 0 |
| Symudiad darpariaethau | 20 | 20 | 0 |
| **Cyfanswm AME** | **20** | **20** | **0** |
| **Cyfanswm Gwariant a Reolir** | | | |
| A+B+C+D | **4,480** | **4,480** | **0** |
| **Adnoddau Gofynnol** | **4,480** | **4,480** | **0** |
| Dibrisiant | -70 | -70 | 0 |
| Newid yn nharpariaethau | -20 | -20 | 0 |
| Symudiadau eraill yn y Cyfalaf gweithio | 20 | 20 | 0 |
| **Gofyniad Arian Net** | **4,410** | **4,410** | **0** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

National Assembly for Wales
Assembly Commission

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Rhagfyr 2018

Annwyl Llyr

Rwy'n ysgrifennu i ddwyn sylw'r Pwyllgor at newid arfaethedig y Comisiwn i'w gyllideb gymeradwy ar gyfer 2018-19 drwy broses y gyllidebol atodol. Mae'r Comisiwn yn cynnig gwneud y canlynol

- gostwng cyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF) o £0.500 miliwn
- gostwng Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer cyllideb Aelodau'r Cynulliad o £0.500 miliwn.

**Cyllideb y GRF**

Mae cyllideb GRF y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol ac mae'n addasiad cyfrifyddu, yn hytrach na gofyniad arian parod.

Ni ellir cyfrifo gwir werth y GRF tan ar ôl 31 Mawrth 2019. Felly, mae'r Comisiwn yn ceisio amcangyfrif proffesiynol o'r gwerth ar ddiwedd y flwyddyn yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cyngor actiwaraidd a gafwyd yn nodi y gallai'r rhwymedigaeth fod yn £1.439 miliwn, sy'n is na'r gyllideb. Felly, mae'r Comisiwn yn bwriadu gostwng cyllideb y GRF o £0.500 miliwn. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau gan fod y gyllideb hon yn cael ei rheoli'n annibynnol ar y Gyllideb Adnoddau.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

**Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Cyllideb Aelodau'r Cynulliad**

Pennir cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2018-19 ar £16.201 miliwn. Rhagolwg mis Tachwedd 2018 ar gyfer y llinell gyllideb hon yw £14.798 miliwn, sef tanwariant o £1.403 miliwn.

Nododd dogfen gyllideb 2018-19, a gymeradwywyd gan y Cynulliad, y byddai angen £600,000 o'r tanwariant hwn i ariannu prosiectau blaenoriaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r swm hwn wedi'i ddyrannu i brosiectau blaenoriaeth. Mae hyn yn gadael £803,000 o danwariant sy'n weddill. Mae cyfarfodydd cyllidebol â Gwasanaethau Busnes yr Aelodau wedi nodi ei bod yn dra thebygol na fydd £500,000 o'r gyllideb hon sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio.

Ni fyddai'n ddoeth gostwng y llinell gyllideb hon o £803,000 oherwydd y newidiadau a gyflwynir gan y Bwrdd Taliadau yn ystod 2018-19 a'r tebygolrwydd y bydd eitemau annisgwyl yn effeithio ar y gyllideb hon, e.e. taliadau marwolaeth mewn gwasanaeth a hawliadau hwyr.

Serch hynny, er yn sicr y byddai’n bosibl cyflwyno prosiectau blaenoriaeth i’r flwyddyn ariannol hon er mwyn defnyddio £500,000, rydym yn ymwybodol o’n hymrwymiad ynghylch unrhyw tanwariant yn erbyn Penderfyniad y Bwrdd Taliadau mewn blynyddoedd yn y dyfodol. Yn unol â hynny, rydym yn mabwysiadu’r un egwyddor ar gyfer y swm nas defnyddir a nodwyd ar gyfer eleni; ni fyddwn yn tynnu’r £500,000 i lawr a chyflwyno’r gyllideb atodol hon i ddiwygio’r gyllideb a osodwyd yn wreiddiol.

Dangosir yr effaith ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2018-19 yn y tabl isod:

| | Cyllideb gymeradwy £m | Cyllideb atodol arfaethedig £m | Cyllideb ddiwygiedig arfaethedig £m |
|---|---:|---:|---:|
| Cyllideb adnoddau | £37.887 | | £37.887 |
| Cyllideb yr Aelodau | £16.201 | -£0.500 | £15.701 |
| Cyllideb y GRF | £2.000 | -£0.500 | £1.500 |
| Cyfanswm | £56.088 | -£1.000 | £55.088 |

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, bydd y Comisiwn yn gosod memorandwm esboniadol gyda'r cais hwn. Atodir copi o'r ddogfen hon er hwylustod. Rhowch wybod i mi os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Manon Antoniazzi, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Cyllideb Atodol ar gyfer 2018-19: Memorandwm Esboniadol

Rhagfyr 2018





www.cynulliad.cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**
Twitter: **@CynulliadCymru**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Comisiwn y Cynulliad**

# Cyllideb Atodol ar gyfer 2018-19: Memorandwm Esboniadol

Rhagfyr 2018



www.cynulliad.cymru



# Cynnwys

**1. Cefndir....6**

**1.1. Memorandwm Esboniadol....6**
**1.2. Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)....6**
**1.3. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad....7**
**1.4. Effaith y gyllideb....7**

**2. Cwmpas y Gyllideb....8**

# 1. Cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn **ar gyfer 2018-19** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Tachwedd 2017, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd cynnig y gyllideb yn rhoi £56.088 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn, gan gynnwys:

- £37.887 miliwn ar gyfer gwasanaethau'r Cynulliad; ac
- £16.201 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Rhoddwyd £2.000 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy gyllideb y Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy'r Comisiwn, drwy Gynnig y Gyllideb Atodol.

## 1.1. Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd gostwng y Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â'r amcanestyniadau a gostwng Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn unol â'r amcanestyniadau.

## 1.2. Gwariant a Reolir yn Flynyddol (GRF)

Mae cyllideb GRF y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Diben yr addasiad hwn yw sicrhau y caiff darlun gwir a theg o rwymedigaeth y Cynllun ei gofnodi ym mantolen y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol y mae'r Comisiwn yn eu talu i'r Cynllun. Nid oes unrhyw ofyniad cysylltiedig o ran arian parod ac nid yw gwneud newidiadau iddo'n effeithio o gwbl ar gyllideb adnoddau na gwaith darparu gwasanaethau'r Comisiwn.

Ni ellir cyfrifyddu'r gwerth terfynol tan ar ôl 31 Mawrth, ond gofynnir am amcangyfrifon gan gynghorwyr proffesiynol yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar gyfrifiadau sy'n adlewyrchu newidiadau hysbys i'r gyfradd ddisgownt a

newidynnau eraill sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o rwymedigaethau'r cynllun, mae'r amcangyfrif diweddaraf ychydig yn llai nag £1.500miliwn.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol y GRF o £1.500 miliwn er mwyn sicrhau bod digon o arian wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

## 1.3. Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

Corff annibynnol yw'r Bwrdd Taliadau sy'n penderfynu ar gyflog a thaliadau Aelodau a'u staff a'r system o gymorth ariannol sydd ei angen ar Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau fel cynrychiolwyr etholedig.

Mae'r Penderfyniad yn rhoi arian ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â bod yn Aelod a/neu ddeiliad swydd, er enghraifft:

- rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr;
- cyflogau a threuliau teithio eu staff cymorth;
- llety preswyl yng Nghaerdydd i Aelodau y mae eu cartref o bellter sylweddol i ffwrdd (mae meini prawf cymhwysedd yn berthnasol);
- cymorth i'r Grwpiau Plaid ac ymchwil polisi.

Ni ellir cyfrifyddu'r costau terfynol yn gywir tan ar ôl 31 Mawrth, felly gwneir rhagolygon yn ystod y flwyddyn. Yn seiliedig ar y disgwyliadau presennol, yn bennaf oherwydd swyddi gwag staff, nid yw'n debygol y gelwir ar yr holl arian a gyllidebwyd ar gyfer cyflogau staff cymorth.

Felly, mae'r Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol o £15.701 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad er mwyn sicrhau bod digon o arian wrth gefn i ymdopi ag unrhyw amrywiad o'r amcangyfrif yn y ffigurau terfynol ar ddiwedd y flwyddyn.

## 1.4. Effaith y gyllideb

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- gostyngiad yng nghyllideb y GRF o £0.500 miliwn i £1.500 miliwn. Nid yw hynny'n effeithio ar y gofyniad ariannol.
- gostyngiad ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sef £0.500 miliwn i £15.701 miliwn. Mae hynny'n lleihau'r gofyniad ariannol o £0.500 miliwn.

# 2. Cwmpas y Gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Cynulliad Cenedlaethol i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2019.

Mae Cynnig y Gyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddisgwyliedig 2018-19 Comisiwn y Cynulliad, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

| **Tabl 1** | **Gofynion diwygiedig £000** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn") ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu'r Comisiwn.<br>Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. | 55,088 |
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn:<br>▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>▪ incwm rhent; rhoddion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 300 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei hadennill. | 51,538 |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2 Gofyniad ariannol** | **£000**<br><br>**2018-19**<br>**Wedi'i adolygu** |
|---|---|
| Gofyniad Refeniw'r Aelodau | 15,701 |
| Gofyniad Refeniw'r Comisiwn | 37,387 |
| Gofyniad Cyfalaf | 500 |
| Darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad (GRF) | 1,500 |
| **Is-gyfanswm** | **55,088** |
| *Addasiadau:* | |
| Dibrisiant (Nad yw'n arian parod) | (2,400) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (1,500) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 350 |
| **Is-gyfanswm** | **(3,550)** |
| **Gofyniad arian parod net i'w gyhoeddi o Gronfa Gyfunol Cymru** | **51,538** |



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Rhagfyr 2018

Annwyl Llyr

Ysgrifennaf atoch i ymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2018-2019. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Hydref 2017. Roedd yr adroddiad yn cynnwys yr argymhelliad a ganlyn

**Argymhelliad 5:** ***Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn paratoi diweddariad yn ystod y flwyddyn (cyn diwedd pob blwyddyn galendr) ar danwariant tebygol y Bwrdd Taliadau ynghyd ag unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiectau y bwriedir eu hariannu drwy ddefnyddio'r tanwariant hwn.***

Yn unol â'r argymhelliad, dyma roi'r wybodaeth ichi ynghylch y tanwariant a ragwelir mewn perthynas â'r arian a gafwyd i gyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gan ddangos sut y caiff y tanwariant hwn ei ddefnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad yn ystod 2018-19.

Byddwn bob amser yn ystyried dychwelyd unrhyw danwariant ar gyllideb gyffredinol y Comisiwn (fel y gwnaethpwyd ag ad-daliad ardrethi ym mis Chwefror 2014), os byddwn yn dod i'r casgliad na allwn wneud defnydd effeithlon, effeithiol o'r arian sydd ar gael i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiwn o fewn y flwyddyn ariannol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227


Yn ystod 2018-19, rydym wedi gorfod mynd i'r afael â gofynion newydd a sylweddol ar adnoddau'r Comisiwn, a godwyd yn sgil Brexit a Diwygio'r Cynulliad. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi profi tanwariant uwch na'r disgwyl ar y gyllideb weithredol sy'n deillio o lefelau uwch o drosiant staff. Mae hyn wedi golygu ein bod wedi gallu cyflawni ein blaenoriaethau buddsoddi a bodloni gofynion adnoddau newydd (o fewn y terfyn sefydliadol) o'r gyllideb weithredol.

O ganlyniad, mae cyllideb atodol wedi'i hanfon at y Pwyllgor Cyllid i'w chymeradwyo, sy'n gostwng maint cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau £0.5 miliwn.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi o ran oedi cyn cyflwyno Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 - Prydlesi, y cyfeirir atynt yng Nghyllideb y Comisiwn 2019-20, ac mae rhagor o fanylion yn yr Atodiad.

Yn ôl yr arfer, cofiwch roi gwybod os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach.

Yn gywir



Suzy Davies

copi at Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

**Atodiad: Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi**

Tynnodd Cyllideb y Comisiwn 2019-20 sylw at y posibilrwydd o gael cyllideb atodol bosibl yn ystod y flwyddyn yn deillio o newidiadau arfaethedig o ganlyniad i IFRS 16 - Prydlesi. Dosbarthwyd y nodyn canlynol (yn Saesneg yn unig) gan Drysorlys EM ar 28 Tachwedd:

***Diweddariad IFRS 16***

*As you know, last Thursday 22 November FRAB (Financial Reporting Advisory Board) held a meeting to discuss, among other things, IFRS 16.*

*At that meeting FRAB confirmed HM Treasury's recommendation to defer IFRS 16 to 1 April 2020, and to allow early adoption under limited circumstances (using the criteria recommended by HM Treasury).*

*FRAB also confirmed most of the staff's recommendations regarding the interpretations, adaptations, and application guidance for IFRS 16. HM Treasury will publish this guidance in December 2018. There are two areas where FRAB still needs to confirm decisions: the subsequent measurement of the right-of-use asset, and whether to include guidance for arrangements with nil consideration. The FRAB plan to reach decisions on these areas at their March meeting and HM Treasury will communicate these decisions as soon as they are reached.*

*In their meeting, FRAB emphasised that this deferral would be strictly limited to one year and that they expect entities to continue their implementation efforts throughout 2019. Budgeting guidance will be published in March 2019. They also emphasised the importance of alignment of IFRS 16 implementation across government. To this end, CIPFA/LASAAC have also agreed to defer the effective date of IFRS 16 for one year to 1 April 2020. Moreover, HM Treasury and CIPFA/LASAAC staff will work together to arrive at an answer regarding subsequent measurement of the right-of-use asset.*

Bydd y newid hwn yn dod i rym nawr o ddechrau blwyddyn ariannol 2020-21. Felly ni fyddwn yn cyflwyno cyllideb atodol canol blwyddyn yn ystod 2019-20 yn ymwneud ag IFRS 16 - Prydlesi.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Rhagfyr 2018**